# Y DINESYDD

Medi 2022 Papur Pobl Caerdydd a'r Fro Rhif 471 £1.20





**Holi Llŷr Gwyn Lewis t.8**



Hawlfraint : Yr Eisteddfod Genedlaethol

**Buddugwyr yr Eisteddfod t.7 - 10**

**Gorymdeithio yn PRIDE t.6**



# Y DINESYDD

**Golygydd:**
**Manon Phillips**

***Golygydd Hydref***
***David Charles***

Cyfraniadau erbyn 27 Medi at:
david.charles1040@googlemail.com
7 Vaughan Avenue, Llandaf,
Caerdydd, CF5 2HR
07885 905318

Y Digwyddiadur:
Yr Athro E Wyn James
JamesEW@caerdydd.ac.uk
16 Kelston Road, Caerdydd, CF14 2AJ
029 20628754

Hysbysebion:
Iestyn Davies
iestynd@gmail.com
15 Birchfield Crescent, Parc Victoria,
Caerdydd, CF5 1AE
07876 068498

Tanysgrifiadau at:
Ceri Morgan
ceri33@btopenworld.com
24 Cwm Gwynlais, Tongwynlais,
Caerdydd, CF15 7HU
029 20813812 / 07774 816209

Prif Ddosbarthwr:
Arthur Evans
Yr Eglwys Newydd.
aloevans@icloud.com
029 20623628

**www.dinesydd.cymru**
Cyhoeddir gan Bwyllgor y Dinesydd.
Nodir hawl y golygyddion i gwtogi
ar erthyglau yn ôl y gofyn.

Argraffwyr:
Serol Print, Castell-nedd
Cysodydd: Dr Eirian Dafydd

CYMRAEG

Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru

Y Cyfryngau Cymdeithasol
Twitter: @DinesyddCdydd
Facebook:
www.facebook.com/YDinesydd

## Golygyddol

Mae'n siwr bod llawer ohonoch fel finnau wedi mwynhau yr Eisteddfod Genedlaethol eleni – naill ai ar y cyfryngau neu drwy fod ar y maes. Ceir dipyn o sylw i rai o enillwyr prif gystadlaethau'r Steddfod yn y rhifyn hwn o'r *Dinesydd*. Yn anffodus, nid oedd lle i roi sylw i bawb fu'n cystadlu ond teg dweud bod gyda'r ddinas ei chyfran o feirdd a chantorion. Diolch i bawb sydd ynghlwm wrth ein corau a'r cymdeithasau barddol am eu cyfraniad i fywyd cymdeithasol Cymraeg y ddinas.

Os cawsoch eich ysbrydoli i fynd ati i gynganeddu neu ysgrifennu yn sgil yr Eisteddfod, yna lle gwell i fwrw eich prentisiaeth nag yn rhai o'r Eisteddfodau lleol. Mae rhestr testunau Eisteddfod Caerdydd bellach wedi ei chyhoeddi ar ei gwefan felly ewch draw am sbec.

Roedd y dathlu yn parhau yng Ngŵyl Pride yng Nghaerdydd dros Ŵyl y Banc. Fel y steddfod, dyma'r tro cyntaf i'r ŵyl gael ei chynnal ers y pandemig ac roedd asbri ac afiaith yr achlysur i'w deimlo'n glir yn ystod yr orymdaith drwy brif strydoedd y ddinas. Braf oedd gweld y Prif Weinidog yn mynd i hwyl yr ŵyl hefyd yn ei grys a thei amryliw.

Mae croeso mawr i chi anfon eich cyfraniadau at rifyn nesaf y *Dinesydd*, boed yn adolygiad, llun neu bwt o newyddion. Anfonwch nhw erbyn 27 Medi at olygydd y mis, David Charles.

Pob hwyl,

Manon

**Cadwch mewn cysylltiad â'r *Dinesydd***

**ar Twitter drwy ddilyn ein cyfrif newydd @DinesyddCdydd**

**ac ar Facebook drwy ddilyn www.facebook.com/YDinesydd**

### Siopau lle gwerthir *Y Dinesydd*

**CABAN**, Pontcanna
**CAFFI BLOC**, Parc Fictoria
**CAFFI FFLOC**, Heol Ddwyreiniol y Bontfaen
**CANT A MIL**, 100 Whitchurch Rd.
**DERI STORES**, Rhiwbeina
**GRIFFIN BOOKS**, Penarth
**PAPERWEIGHT**, 22 Wellfield Road
**SIOP FACH CAERDYDD**, Arcêd y Castell
**Y FELIN**, Yr Eglwys Newydd
**VICTORIA FEARN GALLERY,** Rhiwbeina

# Colofn G.R.



*"Mae hi'n anodd gwybod ble i ddechrau adrodd hanesion am yr haf."*

Dyma fi yn ôl yn y tresi ar ôl seibiant dros wyliau'r haf ac yn wir i chi mae misoedd Gorffennaf ac Awst wedi bod yn llawn o ddigwyddiadau bach a mawr a'r tywydd ar brydiau wedi bod yn chwilboeth ac am unwaith dan ni wedi profi haf go iawn. Ond y broblem rwan ydy diffyg dŵr gan fod y cronfeydd dŵr yn isel oherwydd y sychder!

Mae hi'n anodd gwybod ble i ddechrau adrodd hanesion am yr haf ond hwyrach mai'r digwyddiad arwyddocaol odd yn ymddiswyddiad Boris Johnson "Y prifweinidog gwaethaf a welodd Prydain erioed" yn ôl un sylwebydd! Erbyn i'r golofn hon weld golau dydd bydd gan Brydain Brifweinidog newydd hefo llond gwlad o broblemau yn wynebu'r person rhwng effeithiau'r firws, costau byw, canlyniadau BREXIT, y rhyfel yn yr Wcráin ac ati ac ati. Felly, ymddengys bod gaeaf caled o'n blaenau cyn daw ychydig o sefydlogrwydd nôl i'r wlad. Hynny ydy rhaid byw mewn gobaith yn does?!

Yn erthygl yr Athro E. Wyn James "Llys a Llan" yn rhifyn Gorffennaf/Awst o'r *Dinesydd* soniodd Wyn am yr Aelod Seneddol Eirene White (1909-99) a ddaeth yn Weinidog Gwladol yn y Swyddfa Gymreig fel y Farwnes White o Rymni. Odd hi'n ferch i Tomos Jones Rhymni sef gŵr hynod o ddylanwadol a sefydlodd Coleg Harlech ac am gyfnod bu'n Is-Ysgrifennydd preifat i Lloyd George. Yn ystod yr haf dadorchuddiwyd cofeb i'r Farwnes yn nhre'r Fflint.

Ymfudodd rhan o'r teulu ochr ei thad i Batagonia ac yn ddiweddar dathlodd cyfyrder iddi sef Dewi Mefin Jones Trelew ei ben-blwydd yn 94 oed. Enwyd ffarm y teulu yn Nyffryn Camwy yn Rhymni i gofio am wreiddiau'r teulu nôl yn yr Hen Wlad chwedl y gwladfawyr.

Bu hen edrych ymlaen at ddychwelyd llawer o wyliau a digwyddiadau wedi'r cyfnod hesb oherwydd y firws felltith a chynhaliwyd Eisteddfod lwyddiannus yn Llangollen odd yn dathlu 75 mlwyddiant ei sefydlu gyda chôr Eilir Owen Griffiths, CF1 yn cipio cystadleuaeth Côr y Byd. Yna, odd Sioe Fawr Amaethyddol Llanelwedd wedi denu'r miloedd â phawb yn chwysu chwartiau yn y Sioe ar ddechrau'r wythnos yn y gwres llethol. Yna, Eisteddfod Tregaron a brofodd yn llwyddiant ysgubol â neb am weld diwedd yr wythnos yno gan gymaint y mwynhad ymhlith y miloedd a dyrrodd i Dregaron a'r miloedd fuodd yn gwylio'r holl ddigwyddiadau ar raglenni rhagorol S4C.

Daeth nifer o wobrau i Gaerdydd a'r Fro a'r gadair yn mynd i Llŷr Gwyn Lewis gynt o Gaernarfon am ei awdl ardderchog ym marn y beirniaid ar y testun "Traeth". Hefyd enillwyd cystadleuaeth Dysgwr y Flwyddyn gan Joe Healy gynt o Lundain a ddaeth i Gaerdydd i astudio Sbaeneg a Chatalwneg cyn dod i gysylltiad â'r Gymraeg a phenderfynu mynd ati o ddifrif i'w meistroli. Daeth llwyddiant i Huw Foulkes a'i gôr Côrdydd, a Chôr Caerdydd dan arweiniad Gwawr Owen, a hefyd Côr Hen Nodiant dan arweiniad Catrin Williams. Eisoes mae hen edrych ymlaen at yr Eisteddfod nesa yn Boduan ger Pwllheli!

Yn ystod wythnos Eisteddfod Tregaron bu Cymdeithas yr Iaith yn dathlu'r ffaith y sefydlwyd y Gymdeithas drigain mlynedd yn ôl i eleni yn rhannol o ganlyniad i ddarlith radio Saunders Lewis "Tynged yr Iaith". Sefydlwyd y Gymdeithas ym mis Awst 1962 gan griw o bobl ifanc Cenedlaetholgar yn ystod Cynhadledd Flynyddol Plaid Cymru ym Mhontarddulais. Mae dylanwad y Gymdeithas ar statws yr iaith yn aruthrol ac mae'r Gymdeithas yn dal i ymgyrchu'n frwd ac mae'n dyled yn fawr i waith y Gymdeithas dros y blynyddoedd a hir oes iddi eto wrth iddi amddiffyn ein hiaith.

Llongyfarchiadau i'r ddau gant o athletwyr Cymru a gymerodd ran yn Chwaraeon y Gymanwlad yn Birmingham gan ennill 28 o fedalau a dod yn wythfed ar y tablau medalau – tipyn o gamp i wlad mor fach â Chymru. Enillwyd medal efydd gan y seiclwr Geraint Thomas ac yntau eisoes â medal efydd ar ôl rasio yn Râs y Tour de France. Odd dau Gymro arall o Gaerdydd yn y râs honno hefyd sef Owain Doull a Luke Rowe.

Yn ystod yr haf dathlodd y darlledwr Hywel Gwynfryn ei ben-blwydd yn bedwar ugain oed ac mae o'n dal i weithio gan gyflwyno'r rhaglen wythnosol ar Radio Cymru! Pen-blwydd hapus Hywel a dalier ati! Un arall odd yn dathlu pen-blwydd odd Phyllis Kinney gweddw Merêd, sylfaenydd *Y Dinesydd* a hithau yn gant oed. Americanes ydy hi a bu'n gantores opera yn yr Unol Daleithiau nes cyfarfod â'i gŵr a dod i fyw yng Nghaerdydd yn Shirley Road ger Parc y Rhath a mynd ati o ddifrif i ddysgu siarad Cymraeg. Bu hi a Merêd yn ymddiddori mewn canu gwerin ac mae eu harchif bellach yn y Llyfrgell Genedlaethol sydd yn ffynhonnell gwerthfawr i bawb sy'n ymddiddori yn y pwnc.

Yn anffodus does dim llawer o le ar ôl i mi draethu mwy y tro hwn ond hoffwn ddod i ben hefo'r gerdd fach hon gan G. Gerallt Davies a welais i mewn ôl rifyn o'r cylchgrawn *Lleufer* o'r enw Lleuad Fedi ac fe'm swynwyd ganddi – "Mae ias ym min yr awel/Ac oerdarth yn y glyn/Ac udo ci a chadno/Yn esgyn dros y bryn/Y gwdihŵ o'i chrinbren/A hed wrth loergan hud/Ac ofn sydd ym mynwesau/Holl lygod bach yr ŷd."

Tan y tro nesa a daliwch i wenu er gwaethaf popeth!

# Colofn Natur



## *Nôl â ni i'r presennol!*

**Gethin Jenkins-Jones**

Ysbrydoliaeth gan lyfr am fyd natur a wnaeth fy sbarduno i sgwennu am hanes pell Caerdydd (*Europe*, gan Tim Flannery, os oes gennych ddiddordeb!). Diolch i ddarganfyddiadau dros y blynyddoedd, yn ogystal â thechnoleg fodern soffistigedig, rydym efo darlun cymharol glir o'r hanes hwnnw erbyn nawr. Ond, dwi'n siŵr y daw rhagor o bethau anghredadwy i'r golwg yn y blynyddoedd sydd i ddod. Ar ôl blwyddyn o deithio trwy gynefinoedd hanesyddol y ddinas, mae'n amser i ni nawr fynd yn ôl i'r presennol. Ers ein trip diwethaf - 123,000 o flynyddoedd yn ôl - mae llawer wedi newid, a chyn i ni ddychwelyd adre, teimlaf y dylwn roi darlun byr o'r prif ddigwyddiadau a ddaeth wedi hynny.




Daeth yr iâ yn ôl unwaith yn rhagor ar draws hemisffer y gogledd tua 118,000 o flynyddoedd yn ôl, gan hebrwng y cyfnod olaf o oerfel. Yn Affrica roedd ein hynafiaid yn byw ar y pryd, ond cyn hir cychwynnodd ein lledaeniad ar draws y byd. Erbyn 43,000 o flynyddoedd yn ôl, fe wnaeth dyn modern gamu i Ewrop am y tro cyntaf. O fewn 4 mil o flynyddoedd, diflannodd ein perthnasau agosaf, y Neanderthaliaid, ar ôl iddynt oroesi ar y cyfandir am dros 350,000 o flynyddoedd, gan ein gadael ni fel unig rywogaeth *Homo* y byd. Mae'n debygol na wnaeth nifer fawr o bobl gyrraedd Prydain am gryn dipyn, fodd bynnag. Aeth yr hinsawdd yn oerach fyth, gan wthio rhan fwyaf o fywyd gwyllt i fannau deheuol y cyfandir. Ar ei oeraf, mae'n debygol i'r flanced iâ ddod mor agos â Chaerffili, a byddai Caerdydd wedi bod yn le o dwndra eang efo hinsawdd galed. Ond dychwelodd rhyw 11,700 o flynyddoedd yn ôl, a daeth Oes yr Iâ - a barodd am dros 2.5 miliwn o flynyddoedd - i ben. Pan ddaeth y cynhesu, camodd dyn i Gymru, ond ni ddychwelodd y rheinos, yr eliffantod na'r llewod na nifer o anifeiliaid eraill. Efallai taw gor-hela oedd ar fai? Does neb yn rhy siŵr. Mi fyddai cenedlaethau cyntaf Caerdydd yn sicr wedi byw bywyd o hela a chasglu, a byddant wedi symud o un lle i'r llall dros dymhorau'r flwyddyn i'r llefydd â'r mwyaf o fwyd. Yna, tua 6,500 o flynyddoedd yn ôl, daeth ffermwyr o Ewrop i Brydain, gan gyflwyno cnydau fel gwenith a haidd, ac anifeiliaid pori fel gwartheg a cheffylau. Dros y wlad, dechreuodd pobl setlo mewn un lle, ac adeiladwyd cartrefi cyntaf Caerdydd tua adeg geni Iesu Grist. Yn ara' deg, datblygodd ein hiaith, ac ar ôl bob cenhedlaeth mi fyddai wedi swnio'n fwy a mwy cyfarwydd i'n clustiau. Cychwynnodd pobl sgwennu, ac am weddill ein hanes rydym efo darlun clirach o'r prif ddigwyddiadau ar newidiadau a ddaeth wedyn, o arwyr megis Owain Glyn Dŵr i erchylltra'r rhyfeloedd byd ar ein cymunedau.

Mae ein peiriant amser yn glanio, a cherddwn allan i Heol y Frenhines, lle mae delw Aneurin Bevan yno i'n croesawi nôl. O'n cwmpas mae llif o bobl yn cerdded heibio, a rhan fwyaf ohonynt yn anelu'n bwrpasol at leoliad penodol. Uwch ein pennau clywn gri gwylanod, ac ar y llawr mae ambell golomen i'w gweld yn casglu briwsion ar y palmant. Mae sicr yn rhyfedd sefyll ar rywbeth mor galed unwaith yn rhagor!

Mae hen synau cyfarwydd y ddinas hefyd yn od ar y clust. Sŵn y cerbydau yn mynd heibio gerllaw, cân cloch neuadd y ddinas, sŵn pecynnau o fwyd yn cael eu hagor, a hofrennydd yn y pellter. Synau nad oedd yn bodoli tan ond canrif yn ôl

Cerddwn ar hyd parc Biwt. Mae'n ddiwrnod hyfryd, ac mae teuluoedd a grwpiau o ffrindiau wedi ymgynnull ar y gwair. Mae'n anodd peidio sylwi rhyfeddod y cyfansoddiad bywyd o'n cwmpas. Yn lle'r wiwer goch, wiwerod llwyd o America sydd yn rhedeg i fyny'r boncyffion coed heddiw. Yn lle dim ond planhigion brodorol, mae 'na hefyd blanhigion estron iawn, fel clymog Japan *(Japanese knotweed)* a jac y neidiwr *(Himalayan balsam)* yn tyfu. Ac mae blodau croesfrid hefyd yn tyfu. Wedi diflannu mae'r afancod, gweilch y pysgod a brithion y gors a oedd i'w gweld yn aml ar hyd glannau'r Taf. Nid oes baedd gwyllt yn tyrchu'r



pridd rhwng y coed mwyach, ac nid oes ceirw anferth yn rhedeg rhyngddynt chwaith, a fu mor drawiadol ar hyd cyfnodau mwyn Oes yr Iâ.

Ond, er bod y lle braidd yn annaturiol o'i gymharu â'n tripiau yn y peiriant amser, mae 'na hefyd ddisgynyddion rhywogaethau wnaethom weld bell, bell yn ôl. Yn hedfan dros y dŵr mae gwas y neidr, fel oeddynt yn ystod Oes y Carboniferaidd rhyw 300 miliwn o flynyddoedd yn ôl. Yn tyfu yn agos mae coed pinwydd, a wnaeth fwrw eu gwreiddiau drwy ein pridd yn ystod y cyfnod nesaf - y Permaidd. Mae 'na adar uwch ein pennau, sy' 'di bod efo ni ers y Jwrasig, ac mae blodau a gwenyn o'n hamgylch hefyd, a ddaeth o'r Cretasaidd. Er bod llawer wedi newid, mae llawer o'r goroeswyr dal yma, ac rydym yn lwcus i gael ardal werdd o'r fath yn ein dinas o gwbl. Mae'r parc yma, efo aelodau eraill ein cymuned o'n cwmpas, yn lle neis iawn i ni orffen ein taith.




Felly, dyna i chi grynodeb hanes cyfan ein dinas, ac am newidiadau sydd wedi bod o hyd! Roedd yn goedwig laith, gorsiog, efo rhawn (horsetail) maint coed a gweision y neidr maint colomennod. Yna daeth yn le sych a mwyn, cyn i'r cynhesrwydd ac amodau trofannol ddychwelyd mewn amser i gychwyn Oes y Dinosoriaid. Yna daeth yn boethach eto ar gychwyn Oes y Mamaliaid, cyn cychwyn oeri'n araf deg. Trodd i safana, cyn troi i le o rew ac eira erbyn Oes yr Iâ. A heddiw, am y tro, mae ganddo hinsawdd groesawgar iawn. A lle bynnag byddwch yn mynd yn y byd, bydd yr ardaloedd hynny hefyd â hanes diddorol, ac wedi bod yn gartref i anifeiliaid anhygoel dros yr oesoedd.

Pwrpas y gyfres hon yw ceisio ymestyn ein gwreiddiau fel Cymry tu hwnt i'r diwylliannol i'r naturiol, oherwydd mae gan y pridd - sydd wedi rhoi cartref a lloches i'n holl gyndadau dros y miloedd o flynyddoedd diwethaf - stori hyfryd, diddorol, unigryw a hynod o hen, ac mae gennym ddyletswydd i alluogi i'r stori barhau. Pe bawn ni gyd yn ymwybodol o harddwch ein hoff ardaloedd, ein gwledydd a'n planed, a pha mor anhygoel mae bywyd gwyllt wedi, ac yn dal i fod, nid oes amheuaeth byddwn yn medru ymdopi â heriau'r degawdau nesaf.

Hoffwn ddiolch i chi, sydd wedi bod wrth fy ochr ar hyd y siwrne! Am antur gawsom ni gyda'n gilydd!

# Cylch Cinio Cymraeg Caerdydd

Mae Cylch Cinio Cymraeg Caerdydd yn ail gychwyn fis Hydref ar ôl cyfnod y cyfyngiadau Cofid. Yn ôl y drefn o gyfarfod ar ddydd Llun cyntaf y mis bydd y noson gyntaf y cylch ar y 3ydd o Hydref.

Bu y cyfnod heb gyfarfod yn un hir. Wrth reswm, mae gwahardd cyfarfodydd yn creu anhawster i gymdeithas sydd wedi ei selio ar rwydweithio a mwynhau pryd o fwyd!

Dechrau'r flwyddyn fe gynhaliwyd ymchwil ymysg yr aelodau a ddatgelodd nad oedd y mwyafrif awydd ail gychwyn yn rhy fuan, a chanran fawr yn fodlon efo cyfarfod yn y New House Hotel.

Bydd cyn aelodau yn derbyn gwybodaeth mewn pryd bob mis i gael gwybod am y siaradwr gwadd a'r dewis o fwydlen y mis. Os hoffech dderbyn y manylion, danfonwch eich cyfeiriad e-bost at ein darpar lywydd gwynnangell@gmail.com neu neges destun i 07766055656.

Mae'r cylch yn edrych ymlaen i fwynhau tymor 2022/2023 a chyfle i gysylltu a chyfeillion hen a newydd.

# Cymrodorion Caerdydd

Sefydlwyd 1885

**Rhaglen 2022/23**

Bydd yr holl gyfarfodydd ar Zoom
ac yn dechrau am 7.30

14 Hydref — **PWY wyf i? Crefyddau ein cymdogion**
Cyflwyniad gan Rheinallt Thomas, y Llywydd
Gellir ymuno â'r cyfarfod yn Salem, Treganna, neu ar Zoom

4 Tachwedd — **Cerddi'r cyfnod fel Bardd Cenedlaethol**
Ifor ap Glyn

2 Rhagfyr — **Merêd a Phyllis**
Gwenan Gibbard

2 Chwefror — **John Ceiriog Hughes, Mosty Thomas a fi Canrif o ddarlledu o Gymru**
Arwel Ellis Owen

7 Ebrill — **Cennin a Chig Oen? Golwg ar fwyd Cymru**
Carwyn Graves

**Cynhelir Cinio Gŵyl Ddewi ym mis Mawrth**

Tâl aelodaeth am y flwyddyn £10. I ymuno, neu am ddolen i gyfarfod unigol (£3) cysyllter â Gwynn Matthews, m.g.derwendeg@gmail.com (029 20891802)

# Gwylio'r Geiniog



## Huw Aled Accountants

1. Ydych chi wedi gwirio eich cofnod Yswiriant Gwladol (YG) a rhagolwg eich Pensiwn Gwladol? Os nad ydych chi wedi talu digon o YG mewn unrhyw flwyddyn rhwng 2006 a 2016, y dyddiad cau ar gyfer dal i fyny ar daliadau ar gyfer y cyfnod yma yw Ebrill 2023.

   Yn gyffredinol, mae angen i unigolyn dalu o leiaf 35 mlynedd o YG i fod yn gymwys i dderbyn y Pensiwn Gwladol llawn. Fodd bynnag, mae'n bwysig hefyd i chi wirio rhagolwg eich Pensiwn Gwladol achos gall hyn ddangos nad ydych, ar hyn o bryd, yn gymwys i dderbyn y Pensiwn Gwladol llawn.

   Gallwch wirio rhagolwg eich Pensiwn Gwladol yma:
https://www.gov.uk/gwirio-eich-pensiwn-y-wladwriaeth

2. Mae adroddiadau diweddar wedi dangos bod ymddiriedolaethau cyfalaf menter (*'Venture Capital Trusts', neu 'VCTs'*) wedi dod yn fuddsoddiad cynyddol o boblogaidd. Mae'r poblogrwydd yn deillio o'r rhyddhad treth sydd ar gael, ond mae'n bwysig cofio bod rhain yn buddsoddi mewn cwmnïau newydd ac felly gall y colledion fod yn sylweddol uwch nag unrhyw ryddhad treth. Byddwch yn ofalus wrth ystyried unrhyw fuddsoddiad.

***Cwestiynau Huw ac Aled:*** *Mae gan fy rhiant oedrannus ddementia ac mae'n mynd i fyw naill ai gyda mi neu mewn cartref gofal preswyl. A oes unrhyw ystyriaethau treth?*

Pan mae unigolion oedrannus yn gorfod gwerthu eu heiddo a derbyn gofal, mae 2 lwfans treth ychwanegol posibl ar gael.

Os oes bwlch yn y cyfnod o amser rhwng gadael eu cartref a gwerthu'r tŷ, efallai oherwydd bod y tŷ yn cael ei rentu i denantiaid, cynyddir y cyfnod o berchnogaeth lle mae rhyddhad llawn yn erbyn treth ar eiddo o'r 9 mis olaf arferol o berchnogaeth i 36 mis. Gall hyn leihau neu ddileu unrhyw oblygiadau treth ar eiddo. Yn ogystal, mae rhyddhad llawn ar gael ar gyfer yr amser pan oeddent yn byw yn eu cartref.

Mae lwfans treth etifeddiaeth o £175,000 ar gael i unigolion lle gadewir cartref y teulu i blant neu i wyrion a wyresau. Pan fydd rhieni'n mynd mewn i ofal neu'n mynd i fyw gyda'u plant, os caiff y tŷ ei werthu tra'u bod yn fyw, gellir dal hawlio'r lwfans hwn yn y pen draw o dan yr hyn a elwir yn "*downsizing allowance*".

Os ydynt yn weddw, efallai y gallant hefyd hawlio lwfans ar gyfer eu priod ymadawedig.

*Am fwy o fanylion cysylltwch â ni trwy:*
*huwaledaccountants.com neu 029 20694524*

## Gorymdeithio yn PRIDE

Ymunodd y Prif Weinidog â 150 o aelodau Rhwydwaith PRISM – sef Rhwydwaith pobl LHDTRh+ Llywodraeth Cymru – a 50 aelod o rwydweithiau LHDTRh+ y Gwasanaeth Sifil yng Nghymru yng ngorymdaith PRIDE dros benwythnos Gŵyl y Banc, i ddangos eu cefnogaeth dros faterion cyfeiriadedd rhywiol a hunaniaeth rhywiol.




Dechreuodd y digwyddiad teuluol grêt hwn ar Windsor Place ar fore Sadwrn y 27ain Awst, a gorymdeithiodd pawb drwy strydoedd Caerdydd gyda phobl yn dangos eu cefnogaeth ymhob cwr.

Dyma'r tro cyntaf i'r digwyddiad gael ei gynnal ers 2019 o achos y pandemig felly roedd nifer o bethau i'w dathlu!

PRISM yw'r enw ar rwydwaith staff cyfeiriadedd rhywiol a hunaniaeth o ran rhywedd Llywodraeth Cymru, sy'n cefnogi staff lesbaidd, hoyw, deurywiol, trawsryweddol neu ryngrywiol.

*Phil Jenkins*

# LLONGYFARCHIADAU MAWR I HOLL ENILLWYR EISTEDDFOD TREGARON

## Côrdydd – Côr yr Ŵyl

Llongyfarchiadau mawr i Côrdydd ar ennill yr anrhydedd o fod yn gôr yr Ŵyl yn yr Eisteddfod eleni. A chafodd ei harweinydd, Huw Foulkes, yr anrhydedd o arwain yr anthem genedlaethol ar ddiwedd yr Eisteddfod. Dyma bwt o'r hanes gan Huw Foulkes.

Ddydd Gwener, 5 Awst, roedd hi mor braf bod nôl ar faes yr Eisteddfod. Ar ôl seibiant yn sgil y pandemig ac heb gystadlu yn Llanrwst, roedd aelodau Côrdydd yn barod amdani! Dyma ymgynnull i ymarfer yn y prynhawn - 60 o aelodau, conga a gwydrau!




Cludo'r cyfan wedyn gefn llwyfan yn barod am noson o gystadlu. Er ei bod yn siomedig mai dim ond dau oedd yn y ras, roedd hi'n braf clywed sylwadau'r beirniaid yn canmol y safon ac yn annog mwy o gorau i fentro i'r categori y flwyddyn nesaf. Wedi'r gorfoledd o ennill am y pedwerydd tro ar ddeg, dyma fentro am Faes B i weld Eden. Y dathlu yn ei anterth a'r cwpan mewn tair rhan. Bu'n dipyn o brosiect lleoli'r rhannau ar y bore canlynol.

Wrth i bawb fynd o gwmpas eu pethau ar y dydd Sadwrn, roedd hi'n amser cyhoeddi Côr yr Ŵyl ac ar ôl clywed cymaint o berfformiadau gwych drwy'r wythnos, roedd hi'n fraint dod i'r brig fel côr gorau'r Eisteddfod, a hynny am y seithfed tro.

Digon o ddathlu eto a dathlu pellach fod yr Eisteddfod yn ôl mewn cae a'r ysbryd a'r awydd i gystadlu mor fyw ag erioed!

Bydd Côrdydd yn ail afael ynddi ym mis Medi ac yn paratoi at gyngerdd mawreddog yng Nghricieth gyda Rhys Meirion i godi arian at Eisteddfod Llŷn ac Eifionydd. Diolch i bawb am eu cefnogaeth barhaus a diolch i'r holl aelodau am eu dyfalbarhâd, egni ac am gario'r gwydrau a'r conga… a'r cwpanau ar hyd a lled y maes!

## Dathlu pen-blwydd gyda buddugoliaeth Eisteddfodol

Ddeng mlynedd ar hugain ar ôl ei ffurfio, ac ennill yn Eisteddfod Genedlaethol Aberystwyth, daeth Côr Caerdydd i'r brig unwaith eto eleni yng Ngheredigion, a hynny yng Nghystadleuaeth Gorawl Eisteddfodau Cymru. Cyflwynwyd Medal Goffa Gwilym E. Humphreys i Gwawr Owen fel arweinydd y côr buddugol.

Dyma oedd y trydydd tro ar ddeg i Gôr Caerdydd ennill yn y Brifwyl, a'r tro hwn roedd y cystadlu'n frwd gydag wyth o gorau wedi dod i Dregaron. Roedd rhaglen y côr yn hollol ddigyfeiliant, gydag un darn yn waith comisiwn i ddathlu pen-blwydd y côr yn 30 oed gan y cyfansoddwr o Lanelwy, Paul Mealor, ar eiriau'r Prifardd Tudur Dylan Jones, 'Fel yr Hed y Frân'.

Roedd hi'n braf gweld cymaint o gorau yn cystadlu eleni, gan brofi nad yw'r traddodiad corawl wedi'i lethu'n llwyr gan y pandemig. Daeth nifer o aelodau newydd i ymuno â Chôr Caerdydd i gystadlu, ac wrth ail-ymgynnull ym mis Medi bydd y sylw'n troi at gyngerdd dathlu'r côr yn y Tabernacl ar Hydref 23ain. Bydd yn gyngerdd o gerddoriaeth gorawl Gymreig o'r 30 mlynedd diwethaf, gan gynnwys darn newydd gan Euros Rhys. Bydd mwy o fanylion yn rhifyn nesa'r *Dinesydd*.

*Elin Cadifor*



*Un o drigolion y brifddinas gipiodd Cadair yr Eisteddfod Genedlaethol eleni. O Gaernarfon y daw Llŷr Gwyn Lewis yn wreiddiol ond mae e bellach wedi ymgartrefu yn ardal Parc Fictoria, Treganna gyda'i deulu ifanc. Mae e eisoes wedi cyhoeddi dwy gyfrol o ryddiaith a chyfrol o farddoniaeth. Mae e hefyd yn aelod o dîm y Ffoaduriaid ar raglen Talwrn y Beirdd.*



Hawlfraint: BBC



**Llongyfarchiadau mawr iti am ennill y Gadair gyda chasgliad o gerddi caeth ar y testun 'Traeth'. Allet ti sôn ychydig am y cerddi a'r hyn yr oeddet am ei gyfleu ynddyn nhw?**

Diolch. Dw i ddim yn meddwl ei bod yn gyfrinach nad dyma'r tro cynta i mi gynnig am y gadair! Mewn ffordd mi driais ddysgu o'r troeon eraill hynny drwy beidio â chael fy nhemtio gan gynfas rhy eang neu'r ysfa i arbrofi'n ormodol. Roeddem ni fel teulu wedi bod am wyliau draw i Gwmtydu a Llangrannog yn Awst 2019, felly wedi fy ysbrydoli gan hynny dyma fy nghyfyngu fy hun i'r un diwrnod hwnnw ar draeth Llangrannog a gweld pa fath o gerddi ddeuai. Pa fath o wahanol brofiadau gawsom ni? Pa deimladau a myfyrdodau gododd yn ystod y diwrnod? Ac yna mynd ati i drio cyfleu portread gweddol syml o'r diwrnod hwnnw ei hun, ei lanw a'i drai o'r cyrraedd ben bore i'r gadael gyda'r nos - ond gan weld hefyd a oedd posib i mi drio dweud rhai pethau ehangach, 'dyfnach' os liciwch chi, am natur ein bywydau y dyddiau hyn, am gariad a theulu a'r profiad o fod yn dad, a hefyd rhyw deimlad gwaelodol, er mwynhad y diwrnod ei hun yn yr haul a'r ysfa yma ynom i fynd ar wyliau, bod rhyw fath o drychineb ar y gorwel. Doeddwn i ddim i wybod ar y pryd mai ar ffurf pandemig y deuai hwnnw!

**Ers faint wyt ti'n cynganeddu a beth wnaeth wneud iti ddechrau?**

Mi ddechreuais i'n ifanc iawn, yn yr ysgol gynradd, ac mewn ffordd roedd o'n beth naturiol i'w wneud oherwydd mod i'n mwynhau darllen a gwrando ar farddoniaeth ac am efelychu sŵn y cerddi roeddwn i'n dod ar eu traws. Yn y Steddfod mi faswn i'n mynnu cael mynd i'r Ymryson ac yna'n hel llofnodion beirdd ar hyd y maes! Ac ro'n i wedi ffoli ar hanes Hedd Wyn ac ar gerddi Gerallt Lloyd Owen ac ati. Roedd Dad hefyd yn talyrna yn y capel ac ar dîm Caernarfon yng nghyfres y BBC. Yna bu rhaid imi fod i ffwrdd o'r ysgol am gyfnod ac weithiau'n gorfod mynd i swyddfa Dad, a drws nesa iddo ar y pryd roedd y Prifardd Llion Jones. I nghadw i'n ddiddig roedd ganddo daflenni o gartŵns wedi'u llunio gan Gerallt Lloyd Owen ac mi oedd rhaid dyfalu'r gynghanedd o edrych ar y llun. Yr un arall a roddodd wersi i mi'n gynnar iawn oedd Dafydd Fôn Williams, dirprwy brifathro Ysgol Syr Hugh Owen. Mi gollais ddiddordeb yn llwyr wedyn yn fy arddegau cyn ailgydio ynddi tua diwedd y chweched dosbarth/dechrau'r coleg, a chael arweiniad ac ysbrydoliaeth yno eto gan rai fel Emyr Davies a'i wersi cynganeddu, a seminarau Llion Pryderi yn y brifysgol.

**Rwyt ti hefyd wedi cyhoeddi cyfrolau o ryddiaith a barddoniaeth, mae gen ti deulu ifanc a swydd, sut wyt ti'n gwneud amser i ysgrifennu?**

Wel, does'na ddim llawer o amser erbyn hyn! Mi sgwennwyd y cyfrolau rhyddiaith cyn i'r plant landio, a rhaid i chi gofio hefyd mai yn 2020 y sgwennwyd cerddi'r gadair, pan oedd Math yn fach a Gwern heb ei eni. Gyda'r nosau a fesul chydig y rhois i'r cerddi hyn at ei gilydd, a hynny o tua mis Ionawr 2020 ymlaen: ar ôl cael y mab i'w wely, eistedd lawr a chael ambell gwpled, englyn o bosib, yma ac acw, ac ambell noswaith gwbwl hesb hefyd! Yn ara deg y daethon nhw ond felly sy orau gen i, dw i'n meddwl: dw i'n anobeithiol ar bethau fel y llinell ar y pryd ar y Talwrn.

**Oes gen ti hoff fardd neu awdur?**

Oes, llwyth, ac maen nhw'n newid o hyd felly faswn i byth yn dod i ben â'u rhestru! Dw i'n edmygu gwaith fy nghyd-feirdd ar y Talwrn (Gruffudd Owen, Gwennan Evans, Llio Maddocks a Gethin Wynn Davies - a Casia Wiliam hefyd tan yn ddiweddar) yn fawr iawn a phob gornest mi fydda i'n diawlio ac yn cenfigennu atyn nhw ar yr un pryd â chael gwefr o ddarllen eu gwaith. O ran barddoniaeth gyhoeddedig ddiweddar, mi oedd *Mynd* gan Marged Tudur a *merch y llyn* gan Grug Muse yn arbennig yn fy ngolwg i. Wna i ddim dechrau efo'r rhyddiaith, dim ond dweud mod i wedi mwynhau *Pridd* gan Llŷr Titus yn arw eleni.

**Ers faint wyt ti'n byw yng Nghaerdydd a beth ddaeth â ti i'r ddinas?**

Fel cynifer o rai eraill, dod yma i'r coleg wnes i ac ar wahân i flwyddyn i ffwrdd yn astudio am radd meistr, yma rydw i wedi bod fwy neu lai. Un o'r pethau a'm cyffyrddodd i fwya ar ôl y cadeirio oedd gyrru nôl i Gaerdydd ar y Sul ar ôl y Steddfod a gweld bod rhai o'n cymdogion ni ar ein stryd wedi addurno'r tŷ. Dyna i chi arwydd amlwg o'r gymuned braf a chroesawgar rydan ni wedi'i chanfod yma.

**Oes gen ti hoff le yng Nghaerdydd?**

Mae'r holl ardal o amgylch y parc lle rydan ni'n byw yn braf dros ben ac mi ddaeth rhywun i sylweddoli hynny fwyfwy yn ystod y pandemig o bosib. Yr adeg honno hefyd mi fu rhaid chwilota'n agos at adra am leoedd braf i fynd am dro, ac mae'r rheini'n parhau'n ffefrynnau: i fyny llwybr Elai tuag at Sain Ffagan neu i'r cae wrth yr hen felin, neu i Goed Lecwydd, neu ar y beic (neu'r trên!) at gored Radur a hen gamlas Morgannwg.


**Oes gen ti unrhyw uchelgais arall yn y byd llenyddol neu faes arall?**

Wel mae ennill y gadair ynddi'i hun wedi bod yn uchelgais gen i ers tro byd! Dw i'n un o'r rhai sy'n credu mai mynd o'i wobr at ei waith y mae rhywun, ond dw i hefyd yn ddigon hapus i aros am chydig cyn gwneud hynny, a mwynhau cael ista yn y gadair heb fawr yn galw am y tro!

*Manon Phillips*

# Dyfeisio ac Arloesi

Llongyfarchiadau mawr i Bedwyr Thomas, ar ennill y wobr Dyfeisio ac Arloesi, un o brif wobrau gwyddonol yr Eisteddfod Genedlaethol. Mae Bedwyr yn gyn-ddisgybl yn Ysgol Gynradd Pwll Coch ac Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr. Ar ôl graddio o Goleg St Edmund Hall, Rhydychen, dychwelodd i Gaerdydd. Mae'n un o ddeiliaid ysgoloriaeth ôl-radd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol ac yn fyfyriwr doethuriaeth Cemeg Feddyginiaethol yn y Sefydliad Darganfod Meddyginiaethau ym Mhrifysgol Caerdydd



***Bedwyr Thomas gyda Ben Lake a gymerodd ran yn y seremoni wobrwyo***

Nododd Iolo ap Gwynn, beirniad y gystadleuaeth, fod Bedwyr wedi cyflwyno gwaith sy'n disgrifo 'datblygiad arloesol a chreadigol' ym maes meddyginaethau newydd. Mae ei erthygl yn seiliedig ar ei waith ymchwil sy'n datblygu therapïau i drin clefydau prion. Clefydau niwroddirywiol, heintus, ac angheuol yw'r rhain, megis clefyd y fuwch wallgof a chlefyd Creutzfeldt-Jakob, sy'n achosi i'r ymennydd ymdebygu i sbwng, gyda chodenni a phlac yn ffurfio ynddo. Ar hyn o bryd, nid oes gwellhad na thriniaeth. Lledaeniad y protein prion camblygiedig sy'n gyfrifol am y clefydau hyn. Mae datblygiadau diweddar yn y maes yn cynnig llwybr newydd ar gyfer triniaethau. Trwy ddefnyddio'r dechnoleg PROTACs (*PROteolysis Targeting Chimeras*), mae'n bosib targedu protein er mwyn ei ddiraddio. Nod Bedwyr yw darganfod a fyddai hyn yn bosib ar gyfer y protein prion, trwy ddefnyddio un o fecanweithiau naturiol y corff ar gyfer gwaredu proteinau, y system wbicwitin-proteasom.

Diolch iddo am fod yn angerddol dros gyfathrebu syniadau gwyddonol drwy gyfrwng y Gymraeg a gellir darllen ei waith buddugol yn y cyfansoddiadau. Pob dymuniad da iddo.

---

# Llwyddiant ein beirdd yng ngornest Talwrn y Beirdd

Roedd y Babell Lên dan ei sang b'nawn dydd Sadwrn cyntaf yr Eisteddfod ar gyfer Ffeinal Y Talwrn, BBC Radio Cymru rhwng timau Dros yr Aber a Crannog. Wedi gornest gyffrous, y sgôr terfynol oedd Dros yr Aber 75.5, Crannog 73.5. Mae un o dim Dros yr Aber, Carwyn Eckley, yn byw yn Grangetown. Carwyn hefyd yw enillydd Tlws Coffa Dic Jones eleni, a hynny am sgwennu cywydd gorau'r gyfres.




***Carwyn Eckley***

Llongyfarchiadau hefyd i Gruffudd Owen o Barc Fictoria. Mae Gruffudd yn aelod o dîm Y Ffoaduriaid, ac ef yw enillydd Tlws Coffa Emyr Oernant eleni, a hynny am sgwennu'r gân ysgafn orau. Testun y gân oedd 'Iaith Babis', lle'r aeth Gruffudd ati i gyfieithu gwaith ei fab E. D. Owen (2 a ½ oed )!



***Gruffudd Owen a'i fab***

Bydd Y Talwrn yn recordio'r gyfres nesaf ar leoliad ac os hoffai eich cymdeithas neu glwb estyn gwahoddiad i'r gyfres ddod draw i'ch ardal chi mae croeso i chi gysylltu gyda'r rhaglen drwy ebostio ytalwrn@bbc.co.uk

## Ysgoloriaeth Fentora Emyr Feddyg



Llongyfarchiadau mawr i Emlyn Williams o Drelluest ar ennill Ysgoloriaeth Fentora Emyr Feddyg yn yr Eisteddfod Genedlaethol. Eleni fe gynigwyd yr ysgoloriaeth hon i fardd am gasgliad o 20 o gerddi nad oeddent eisoes wedi'u cyhoeddi. Gellir darllen y cerddi buddugol yn y Cyfansoddiadau a Beirniadaethau Eisteddfod Ceredigion.

Un o Lanbedrog, Pen Llŷn yw Emlyn yn enedigol, ond bu'n byw yng Nghaerdydd ers dros ddeugain mlynedd. Ar ôl graddio mewn celf a dylunio yn 1972 aeth i fwrw prentisiaeth fel golygydd ffilm yn Swydd Efrog, cyn symud lawr i Lundain i weithio. Wedi dychwelyd i Gymru yn 1976, bu'n gweithio fel sgriptiwr a chyfarwyddwr ffilm a theledu am ddeg mlynedd ar hugain, cyn mynd draw i Savannah, yn yr Unol Daleithau, i ddarlithio mewn ysgol ffilm.

Mae o wrthi'n dysgu Ffrangeg ar hyn o bryd ac yn aelod brwd o Ysgol Farddol Caerdydd. Mae'n dilyn cyngor ei athrawon barddol, Emyr Davies ac Aron Pritchard, trwy wneud ei orau glas i osgoi'r draws fantach wrth gynganeddu. Mae'n hynod ddiolchgar i'r ddau yma am bob anogaeth a chymorth.

Y prifardd Emyr Lewis fydd yn mentora Emlyn Williams wrth iddo datblygu ei ddawn fel bardd dros y flwyddyn nesaf. Gobeithio y cawn ychydig o hanes y mentora yn *Y Dinesydd* a chyfle i bori ar gerddi newydd o'i waith

## Côr Hen Nodiant

Ar ôl saib o dair blynedd, bu Côr Hen Nodiant yn cystadlu unwaith eto yn Eisteddfod Genedlaethol Tregaron a'r Cylch eleni. Roedd pedwar côr yn cymryd rhan yn y gystadleuaeth i gorau dros 60 oed yn y gobaith o ennill gwobr ariannol sylweddol a chwpan arian ond Côr Hen Nodiant a ddaeth i'r brig dan arweiniad ein harweinydd newydd, brwd, Catrin Williams a Marged Jones yn cyfeilio.

Nid yw'r Côr wedi ildio'i record ddiguro ers iddo gael ei sefydlu, ac er profi cyfnod hir heb gyfarfod a cholli nifer o aelodau drwy salwch a phrofedigaeth, daeth y rhan fwyaf o'r aelodau ynghyd ym mis Medi 2021 i ailgydio yn yr ymarferion. Ymunodd nifer o aelodau newydd ac aed ati i lunio rhaglen amrywiol o bedwar darn fyddai'n adlewyrchu doniau ac adnoddau lleisiol y Côr.

Yn ôl y beirniaid, roedd hwn yn berfformiad graenus a hyderus gydag agoriad tyner a theimladwy o'r emyn 'Berwyn' a diweddglo llawen, trawiadol a thrydanol o'r gân boblogaidd 'Galwad y Gân'.

Mae'r Côr bellach yn trefnu cinio mawreddog i ddathlu'r fuddugoliaeth ddiwedd mis Medi. Ac nid yw'n fwriad ganddo orffwys ar ei rwyfau chwaith.


Llun: S4C

Y gobaith yw trefnu cyngerdd yn yr hydref i goffáu aelodau yr ydym wedi eu colli. Ni chodir tâl ond bydd casgliad tuag at bobl Wcráin gan fod gan sawl aelod â chysylltiadau ag Wcrainiaid.

*Menna Cravos*

## Gwobr Goffa y Fonesig Ruth Herbert Lewis

Llongyfarchiadau mawr i Llinos Haf Jones o Benarth a gafodd wythnos lwyddiannus iawn yn yr Eisteddfod. Hi oedd enillydd Gwobr Goffa y Fonesig Ruth Herbert Lewis am Unawd Alaw Werin o dan 25 oed ac enillydd yr Unawd Mezzo Soprano o dan 25 oed. Yn ogystal derbyniodd y drydedd wobr yn yr Unawd Lieder a chanu yng Ngwobr Goffa Osborne Roberts. Pob hwyl iti ar dy yrfa yn y dyfodol!



# Ysgol Gwaelod y Garth

**Senedd Ysgolion Cynradd Caerdydd**

Yn dilyn llwyddiant ein senedd ysgol "Llais" rydym wedi penderfynu yn ysgol Gwaelod y Garth i sefydlu Senedd i Ysgolion Cynradd Caerdydd. Rydym wedi bod yn trafod gyda Llywodraeth Cymru'r syniad o greu "Senedd" i ddisgyblion ysgolion cynradd Caerdydd. Y bwriad yw annog annibyniaeth a mentergarwch ein disgyblion, a rhoi amryw o gyfleoedd iddynt gydweithio gyda'i gilydd ar brosiectau a strategaethau gwahanol. Mae Llywodraeth Cymru yn awyddus i gefnogi'r prosiect ac yn mynd i fod yn rhan weithredol o sefydlu'r Senedd. Y cam cyntaf fydd creu pwyllgor cabinet fydd yn cynnwys 2-4 o ddisgyblion o bob ysgol, sef aelodau hŷn y Cyngor Ysgol. Yna wrth i'r Senedd esblygu byddwn yn ychwanegu cynrychiolwyr o'r Cyngor Eco, Siarter Iaith, Llysgenhadon Lles ac yn y blaen. Dyma'r prosiect cyntaf o'i fath yng Nghymru. Cawsom gyfarfod buddiol iawn gyda chynrychiolwyr o bron bob ysgol yng Nghaerdydd ac edrychwn ymlaen at ein cyfarfod nesaf yn nhymor yr Hydref.

**Ambiwlans Awyr Cymru**

Ein helusen ysgol y flwyddyn yma yw Ambiwlans Awyr Cymru. Mae pob dosbarth wedi gwneud amryw o weithgareddau i godi arian i'r elusen arbennig yma. Rydym yn hynod o falch i gyhoeddi mai cyfanswm yr arian a godwyd y flwyddyn yma yw £6,5000! Diolch i bawb am em eich cyfraniadau hael.

## Mis Medi gyda'r Mentrau…

Wedi haf prysur o weithgareddau i blant a phobl ifanc, trip i'r Eisteddfod a theithiau cerdded, mae criw Menter Caerdydd a Menter Iaith Bro Morgannwg yn edrych ymlaen at dymor yr hydref.

Dewch gyda ni i'r Fenni, ddydd Sadwrn, 17 Medi ar daith fws i'r Ŵyl Fwyd lle bydd digon o gyfle i flasu cynnyrch lleol. Neu beth am fynychu rhai o'n sesiynau poblogaidd? Bydd Sgwrs y Mis yn dychwelyd nos Iau, 22/09 yng nghwmni Dr Eirini Sanoudaki a ddaw o ynys Creta'n wreiddiol. Bydd hi'n siarad am ei phrofiad o fyw gyda llawer o ieithoedd, ac am waith ymchwil Labordy Dwyieithrwydd Plant Prifysgol Bangor.

Yn ogystal, bydd ein Bore Coffi Misol i Ddysgwyr yn dychwelyd ar Zoom fore Gwener ola'r mis a Ffitrwydd Gyda Ffrindiau 75+ yn parhau bob yn ail ddydd Gwener yng Nghanolfan Genedlaethol Chwaraeon Cymru gyda chroeso mawr i aelodau newydd.

Bydd ein dosbarthiadau Sbaeneg (Canolradd) yn dychwelyd ar ddiwedd y mis, a'r cyntaf o'n cyrsiau hanes byrion yn rhedeg ar nosweithiau Llun o 3 Hydref am dair wythnos, gyda Dr Eurwyn Wiliam wrth y llyw. Bwriad y cwrs - **Cartrefi'r Werin: Adeiladau Traddodiadol Cymru -** yw edrych ar gartrefi pobl gyffredin drwy'r oesoedd.

Byddwn ni hefyd yn ail-ddechrau ein cyngherddau cymunedol 'Mewn Tiwn' yng Nghanolfan Beulah, Rhiwbeina, unwaith y mis am 11.30yb ar fore Llun, 26 Medi, 31 Hydref a 28 Tachwedd. Draw ym Mro Morgannwg, mae pawb yn edrych ymlaen at gyd-ganu rhai o'r hen ffefrynnau yng nghwmni Dafydd Iwan a'r Gerddorfa Ukulele, nos Wener, 9 Medi.

Bydd digon o hwyl a sbri i blant hefyd gan gynnwys Sioe Syr Ifan ab Owen Edwards yng nghwmni 'Mewn Cymeriad' yn festri Capel Salem fore Sadwrn, 10 Medi. Yn ystod y mis byddwn hefyd yn dechrau sesiynau ffitrwydd i blant 7-11 oed yng Nghanolfan Gôl ar foreau Sadwrn. Dyma gyfle gwych i aelodau ifanc y teulu gadw'n heini a chael ychydig o sbort yr un pryd.

Gyda Chymru trwyddo i rowndiau terfynol Cwpan y Byd, bydd cyfle i blant 7-13 oed ddysgu sgiliau sylwebu yng nghwmni Dylan Ebenezer ac arbenigwyr o Brifysgol De Cymru. A chofiwch am ein Gig Ieuenctid i bobl ifanc 16-25 oed ar 28 Medi pan fydd Tafwyl yn cyflwyno bandiau amrywiol ar lwyfan Clwb Ifor Bach.

I'r rhai sydd â phlant ifanc iawn, dewch i fwynhau ein disgo diwedd haf i'r rhai bach! Bydd ein sesiynau Amser Stori hefyd yn dychwelyd i leoliadau amrywiol o gwmpas y ddinas. Ewch i'r wefan am fwy o fanylion.

Gwefan: mentercaerdydd.cymru / menterbromorgannwg.cymru

Facebook: @m.caerdydd / @MIBroMorgannwg

Instagram: https://www.instagram.com/mentercaerdydd/

E-bost / Ffôn: post@mentercaerdydd.cymru / 029 2068 9888

# Cymdeithas Gymraeg Rhiwbeina

Er y gwres fe gafwyd cyfle i gymdeithasu a sgwrsio ar Orffennaf y 18 ac ar Awst 15. Roedd y cerddwyr dewr yn cwrdd ym maes parcio Y Deri am 10.00. Daeth y gweddill at Y Deri am baned am 11.00. Roedd yn hyfryd cael y cyfle i gymdeithasu unwaith eto.

Bydd ein cyfarfod nesaf yng Nghapel Bethel i gychwyn ein tymor newydd fel arfer ar y trydydd Nos Lun o'r mis, sef Medi 19 gyda Aled Powys Williams yn son am ei yrfa ym myd y canu, ac yna yn cychwyn busnes!

Yna, ar 17eg o Hydref byddwn yn cael "Te Prynhawn" ac adloniant yn y "New House" i ddathlu penblwydd y Gymdeithas yn 30 oed, a hynny am 2.30 y pnawn. Ar gyfer y cyfarfod hwn bydd angen rhoi'r enwau a'r tâl yng nghyfarfod cynta'r tymor neu fan bellaf erbyn Hydref yr 2il i Carol O'Donnell, 1 Min y Nant, Rhiwbeina (ffon 07910547619)

# Llys a Llan

*Colofn sy'n crwydro ar hyd meysydd llên, crefydd a hanes yng Nghaerdydd a'r Fro*

**Yr Athro E. Wyn James**



**Bwrlwm yn y Barri: D. Arthen Evans ym Mhwerdy'r Gymraeg** (Rhan 5)

Byddai'n bosibl llunio cyfres hir o erthyglau am bobl a fu'n byw yn y Barri dros y cenedlaethau a gyfrannodd yn sylweddol mewn gwahanol ffyrdd i'r bywyd Cymraeg a Chymreig.

I nodi un enghraifft yn unig o'r cyfnod cyn y twf mawr yn hanes y dref yn sgil agor y dociau yno yn niwedd y 19eg ganrif, dyna'r emynydd mawr o'r 18fed ganrif, Dafydd William – awdur emynau megis 'Hosanna! Haleliwia! fe anwyd Brawd i ni', 'O! Dduw, rho im dy Ysbryd, dy Ysbryd ddaw â gwres' ac 'Yn y dyfroedd mawr a'r tonnau'. Symudodd i Fro Morgannwg tua 1777 a dod yn un o brif arweinwyr yr achos Bedyddiedig arloesol a sefydlwyd yng nghyffiniau Llanbedr-y-fro yr adeg honno, sef eglwys Croes-y-parc (mam-eglwys y Tabernacl ar yr Ais yng Nghaerdydd). Bu Dafydd William yn bur wan ei iechyd am ryw flwyddyn cyn iddo farw. Cafodd ymgeledd yn y cyfnod hwnnw gan rai o aelodau'r eglwys yng Nghroes-y-parc a drigai yn hen ffermdy'r Holltwn (a safai nid nepell o swyddfeydd presennol Cyngor Bro Morgannwg ym mhen gorllewinol Holton Road yn y Barri). Roedd y ffermdy hwnnw'n orsaf bregethu ar gyfer y Bedyddwyr, ac yno y bu Dafydd William farw yn niwedd Hydref neu ddechrau Tachwedd 1794.

Afraid dweud fod nifer o bobl y Barri yn ein dyddiau ninnau yn enwau cyfarwydd yn genedlaethol am eu cyfraniad i'r diwylliant Cymraeg ac i fywyd Cymru, ond fel rwyf wedi awgrymu eisoes yn y gyfres bresennol o erthyglau am y dref, roedd cyfraniad y Barri i'r gwaith o hyrwyddo'r Gymraeg a hunaniaeth Gymreig yn arbennig o nodedig yn y cyfnod o fwrlwm economaidd a chymdeithasol a'i nodweddai yn negawdau cyntaf yr 20fed ganrif.

Un enghraifft o hynny yw ymwneud allweddol nifer o drigolion y Barri â'r *Welsh Outlook* ym mlynyddoedd cynnar y misolyn hwnnw. Lansiwyd *The Welsh Outlook* yn 1914. Un o drigolion y Barri ar y pryd, Dr Thomas Jones – brodor o Rymni a fyddai'n dod yn was sifil hynod ddylanwadol maes o law – oedd golygydd cyntaf y cylchgrawn, ac roedd dau o drigolion eraill y Barri ymhlith aelodau cynnar y bwrdd golygyddol, sef Edgar Jones, prifathro Ysgol Sir y Barri (a thad y newyddiadurwr Gareth Jones, a ddatgelodd i'r byd y newyn enbyd yn Wcráin yn nechrau'r 1930au), ac R. Silyn Roberts, sydd fwyaf adnabyddus, ynghyd â'i wraig Mary, am eu cyfraniad enfawr i ddatblygiad addysg oedolion yng Nghymru. Rhoddwyd peth sylw i Thomas Jones ac Edgar Jones yn ein herthygl ddiwethaf, ac er inni sôn rywfaint hefyd am Silyn Roberts, mae'n werth oedi ychydig ragor yn ei gwmni ef.

Brodor o Ddyffryn Nantlle yn sir Gaernarfon oedd Robert Silyn Roberts (1871–1930). Aeth i'r chwarel yn 14 oed, ond ailgydiodd yn ei addysg ffurfiol yn 19 oed, gan raddio'n BA o Goleg Bangor yn 1899 ac yn MA yn 1901. Erbyn hynny roedd wedi dechrau dod i'r amlwg yn genedlaethol fel bardd, yn un o'r to o feirdd ifainc a ddaeth dan ddylanwad yr adfywiad rhamantaidd a brofodd y diwylliant Cymraeg yn niwedd y 19eg ganrif a dechrau'r 20fed. Cyhoeddodd gyfrol o gerddi o'r enw *Telynegion* ar y cyd ag W. J. Gruffydd yn 1900, ac yn 1902 enillodd Goron yr Eisteddfod Genedlaethol am ei bryddest 'Trystan ac Esyllt' – yn yr un Eisteddfod ag yr enillodd T. Gwynn Jones y Gadair am ei awdl 'Ymadawiad Arthur'.

Aeth Silyn yn weinidog i eglwys y Methodistiaid Calfinaidd Cymreig yn Lewisham, Llundain, yn 1901, gan symud oddi yno i fod yn weinidog yn Nhanygrisiau, Blaenau Ffestiniog, yn 1905. Yna, yn niwedd 1912, daeth yn Ysgrifennydd cyntaf y Bwrdd Penodiadau a grëwyd gan Brifysgol Cymru i gynorthwyo myfyrwyr i gael gwaith wedi iddynt orffen eu cwrs colegol. Yng Nghofrestrfa'r Brifysgol yng Nghaerdydd yr oedd swyddfa Silyn, ond yn Ionawr 1913 symudodd ef a'i deulu i fyw i 44 Romilly Road yn y Barri, yn agos i'w gyfaill, Dr Thomas Jones, a oedd yntau'n gweithio yng Nghaerdydd ond yn byw yn y Barri. Ac fe fu Silyn yn gyfrifol am ddenu nifer o bobl amlwg yn y bywyd Cymraeg i fyw i'r Barri, nid lleiaf (fel y soniwyd yn ein herthygl ddiwethaf) ei gyfaill mynwesol, y bardd mawr rhamantaidd R. Williams Parry, y cyhoeddwyd nifer o'i gerddi yn y *Welsh Outlook*, gan gynnwys ei englynion enwog er cof am Hedd Wyn.

Dyma ddisgrifiad Williams Parry o Silyn y tro cyntaf iddo ei weld, a Silyn ar y pryd yn bregethwr ifanc ar brawf: 'wyneb gwelw, meddylgar, dan lwyn o wallt cringoch, cyrliog, corff bregus ddigon, ac ychydig gamystum ar un o'i ysgwyddau, effaith cic a gafodd gan gaseg pan oedd yn fachgen bach; ei wisg fel ei feddwl, o doriad a deunydd hytrach yn anghyffredin'. Ac wedi iddynt ddod yn gymdogion yn y Barri ym mis Medi 1913, dywed Williams Parry y byddai 'yn ei weld o leiaf deirgwaith yr wythnos. Ar ôl swper y byddai hynny ar ddyddiau gwaith, ond ar y Sul yn y prynhawn.' Ac er na fyddai Silyn bob amser 'yn ei lawn hwyliau ar ôl diwrnod caled o waith yng Nghaerdydd ac i fyny ac i lawr y cymoedd mewn ymchwil am waith i fyfyrwyr', byddai bob amser yn bywiogi trwyddo wrth i Williams Parry sôn am eu dyddiau bore oes yn Nyffryn Nantlle.

Roedd Silyn a Williams Parry yn aelodau o'r dosbarth dysgu canu penillion a gynhaliodd y datgeiniad poblogaidd J. E. Jones ('Iorwerth Twrog'; 1886–1934) yn y Barri yn nhymor gaeaf 1913, pan oedd J. E. Jones yn athro ysgol yn Llanilltud Faerdref. Roedd Mary, gwraig Silyn, hefyd yn aelod o'r dosbarth hwnnw. Fel Silyn, roedd ganddi ddiddordeb byw mewn canu gwerin ac roedd hefyd yn delynores, a'i thelyn yn un a fu'n eiddo i'r nofelydd Gwyneth Vaughan o'i

blaen. Ceir sawl adroddiad papur newydd yn 1914 am Mary Silyn yn rhoi anerchiadau am ganu gwerin i gyfarfodydd plant dan nawdd Cymrodorion y Barri ac eraill, gan gynnwys canu iddynt ar y delyn.

Yn un o'r anerchiadau hynny, pwysleisiodd Mary Silyn y cam mawr a wnâi rheini Cymraeg wrth beidio â throsglwyddo'r iaith i'w plant: 'Dywedid wrthi pan y daeth i fyw i'r *Barri* yr anghofid y Gymraeg cyn pen ychydig amser gan ei dau fachgen, ond "cyhyd ag y bydd cartref ganddynt," meddai, "ni fydd dim petrusder ynghylch eu hiaith."' Fel ei gŵr, roedd Mary Silyn ar dân dros Gymru a'r Gymraeg, fel y gwelwn o'r disgrifiad hwn ohoni pan roddodd anerchiad i Gymrodorion Margam a Dyffryn Afan yn 1916 ar ysbryd y brenin Arthur yn cyfodi: 'Siaradai â fflam wladgar yn gloewi ei llygad.'



*Mary Silyn Roberts (1877-1972)*

Glynn a Meilir oedd enwau dau fachgen Mary a Silyn Roberts, a ganed plentyn arall iddynt yn 1915, tra oeddynt yn byw yn y Barri, sef Rhiannon ('Nanw') – un a fu am gyfnod yn yr 1960au a'r 1970au yn ysgrifenyddes yn Adran y Gymraeg yn y Brifysgol yng Nghaerdydd. Roedd hi'n bresennol ym mhrotest enwog aelodau o Gymdeithas yr Iaith ar Bont Trefechan yn Aberystwyth ar 2 Chwefror 1963, ac meddai Dr John Davies mewn erthygl yn 2012, 'That [protest] produced some dramatic pictures, especially that of Rhiannon Silyn Roberts knocked out by a car driver and lying supine in the snow.'

Yn Chwefror 1916, penodwyd Mary Silyn gan y Bwrdd Masnach yn Drefnydd Gwasanaeth Merched ar y Tir yng Nghymru, ac yn sgil hynny symudodd hi a'r plant i fyw i Lanrhychwyn yn Nyffryn Conwy; ac o hynny nes penodi Silyn yn ddarlithydd dosbarthiadau allanol yng Ngholeg Bangor yn 1922, rhannai Silyn a Mary eu hamser yn ôl y galw rhwng Llanrhychwyn a Romilly Road yn y Barri.

Roedd gan Silyn orwelion rhyngwladol eang iawn. Yn y cofnod amdano yn *Who's Who in Wales* (1921), dywedir o dan 'relaxations and hobbies': 'Travelling and Cycling; has travelled in most European countries, and knows Canada and the United States well.' Roedd Silyn yn Sosialydd brwd, ac roedd wrth ei fodd pan gododd y cyfle yn haf 1930 iddo ymweld â Rwsia. Trwy gyd-ddigwyddiad, yn ystod yr ymweliad hwnnw bu Silyn yn Wcráin ym mis Mehefin, ychydig wythnosau cyn ymweliad cyntaf Gareth Jones – mab Edgar Jones, hen gyfaill Silyn yn y Barri – â'r wlad honno yn rhinwedd ei swydd fel ymgynghorydd materion tramor i Lloyd George (er bod profiad y ddau o Wcráin yn wahanol iawn, a Silyn yn dweud wrth ei wraig mewn llythyr o Kyiv fod 'yma gyflawnder dihysbydd o fwyd a diod, lluniaeth a llawenydd', tra mai'r cyfan y gallai Gareth Jones ei gael i'w fwyta adeg ei ymweliad â Donetsk yng nghanol Awst 1930 oedd rhôl o fara). Ond ar y fordaith yn ôl i Brydain, cafodd Silyn ei bigo gan fosgitos, a bu farw o effeithiau hynny ar 15 Awst 1930, yn 59 oed.

Silyn oedd cadeirydd Pwyllgor Llên Eisteddfod Genedlaethol y Barri yn 1920, ac yn yr Eisteddfod honno y cafwyd Pabell Lên am y tro cyntaf a chystadleuaeth gwneud 'englyn ffraeth'. Ond yr un a fu'n fwyaf cyfrifol am ddenu'r Eisteddfod Genedlaethol i'r Barri, ac a fu'n Ysgrifennydd Cyffredinol yr Eisteddfod honno, oedd D. Arthen Evans – a dyma ni yn ôl unwaith eto gydag Arthen …

(*I'w barhau*)

## CF1 yw Côr y Byd

Er bod mis Gorffennaf yn teimlo'n sbel yn ôl erbyn hyn, gwerth yw nodi camp Côr CF1 a ddaeth yn fuddugol yng nghystadleuaeth Côr y Byd yn Eisteddfod Rhyngwladol Llangollen yn erbyn corau o bob cwr o'r byd.




Y gystadleuaeth hon yw uchafbwynt y cystadlu ym Mhafiliwn Llangollen, a gynhaliwyd am y tro cyntaf ers 2019. Coronwyd CF1 wedi diwrnod llwyddiannus dros ben, gan iddynt ennill categorïau'r Corau Cymysg a'r Corau Agored, a'r olaf o'r ddau â sgôr uchel iawn o 95.

Roedd Eilir Owen Griffiths, Cyfarwyddwr Cerdd y Côr, wrth ei fodd yn enwedig am fod y côr yn dathlu ugain mlynedd ers ei sefydlu eleni. "Mae ennill Côr y Byd y golygu cymaint i ni fel côr, ac mae'n profi bod dal cyfoeth o dalent gerddorol yma yn Nghymru. Mae'n ffordd wych o ddechrau'r dathliadau!'

# Gweinidog Newydd i Eglwys y Tabernacl

Mae Eglwys Y Tabernacl, Yr Ais, wedi galw menyw i'r weinidogaeth am y tro cyntaf, a honno wedi dysgu'r Gymraeg. Mae'r Parchedig Ddoctor Rosa Hunt, sy'n hannu o ynys Malta a'r Falteg yn famiaith iddi, hefyd yn gyd-bennaeth ar Goleg Bedyddwyr Caerdydd.

Nid oedd hi'n fwriad gan Rosa adael Capel Salem yn Nhonteg, lle mae'n Weinidog ar hyn bryd, ond yn dilyn gwahoddiad i bregethu yn y Tabernacl ar ddiwedd 2021 fel rhan o'r dathliadau dau can mlwyddiant, a nifer o sgyrsiau a chyfarfodydd gyda swyddogion y capel, penderfynwyd yn unfrydol i'w gwahodd.

O ran yr heriau a'r cyfleoedd fydd yn ei hwynebu, cred Rosa bod gan y capel lawer o botensial o ran ei leoliad yng nghanol y ddinas, a'r anghenion sydd yno: *'Does dim un eglwys anghydffurfiol arall yn y canol erbyn hyn o blith yr enwadau i gyd. Felly oes ffordd i ni gadw'r drysau ar agor trwy'r wythnos? Cynnig rhywbeth gwahanol iawn, noddfa dawel yng nghanol prysurdeb y ddinas, a gwahodd pobl i weddïo? Mae cwestiwn yr iaith hefyd yn un mawr i eglwys fel Tabernacl yng nghanol dinas Caerdydd. Sut gallwn gyrraedd cymunedau'r ddinas trwy'r ffaith ein bod yn eglwys Gymraeg ein hiaith?*

Ychwanegodd Rhys ab Owen, un o ddiaconiaid yr eglwys, *"Rydym wrth ein bodd bod Duw wedi arwain Rosa i fod y 11eg gweinidog ar y Tabernacl. Mae'r gynulleidfa gyfan yn edrych ymlaen at bennod newydd gyffrous.'*



Sefydlir Rosa mewn oedfa gyhoeddus yn y Tabernacl, Caerdydd ar ddydd Sadwrn 17 Medi am 3 o'r gloch.

**I'r Parch Ddr Rosa Hunt**

Mewn teg ardd ti yw harddaf – eginyn
    Y gwanwyn tyneraf;
Gweiryn o'r ddôl ragoraf;
A rhodd o rosyn yr haf.

**Robin Gwyndaf**

# Gwobr Pennaeth y Flwyddyn

Hoffem longyfarch Meurig Jones, Pennaeth Ysgol Gyfun Gymraeg Llangynwyd ar ennill y wobr genedlaethol Pennaeth y Flwyddyn yng ngwobrau Addysg Cymru mewn seremoni fawreddog yn y Gyfnewidfa Lo ddechrau Gorffennaf.

Mae Meurig sy'n hanu o Aberdâr a bellach yn byw yn Nhongwynlais yn gyn ddisgybl yn ysgolion Ynyslwyd a Rhydfelen. Dechreuodd ei yrfa addysgu yn Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf yn 2000 fel athro drama a chyfryngau, cyn gael ei benodi i Ysgol Gyfun Gymraeg Llangynwyd, Maesteg, fel Pennaeth Cynorthwyol ym mis Medi 2011.




Nododd y beirniaid ei fod wedi ennill y wobr hon am ei waith caled yn arwain Llangynwyd fel pennaeth ers Pasg 2016 ac am arwain a chefnogi Ysgol Gyfun Gwynllyw yn ddiweddar, ei gamp yn arwain y ddwy ysgol yn ystod pandemig, ynghyd â chydnabod ei waith dros addysg Gymraeg yn genedlaethol. Mae'n braf cael dathlu ei lwyddiant fel pennaeth, i Ysgol Llangynwyd ac i addysg Gymraeg. Mae Meurig yn ymfalchïo yn ei waith fel prifathro ac yn y tîm ymroddedig a thalentog sydd yn gweithio gydag ef yn Llangynwyd. Llongyfarchiadau mawr iddo.

*Owain Tudur*



# Y Parchedig D. Haydn Thomas BA 1932-2022

Pan fu farw y Parchedig David Haydn Thomas ar y 26ain o Fehefin yr oedd ei ben-blwydd yn 90 oed yn agosáu. Bu fyw felly drwy gymaint o ddatblygiadau pell eu cyrhaeddiad a welodd ein cymunedau a'n cenedl ni odid eioed. Daeth gwyddoniaeth a thechnoleg a bendithion a heriau lu; daeth hiwmanistiaeth a seciwlariaeth â ffordd wahanol o feddwl a byw, gwerthoedd a blaenoriaethau newydd i'n pobl; daeth y dylanwadau rhain ynghŷd â phresenoldeb cynyddol crefyddau eraill i danseilio ysbrydoledd Gristnogol gynhenid y genedl. Ond fel eraill o'i gyfoedion, ordeiniedig a lleyg, cadwodd Haydn y Ffydd ac ymdrechodd 'ymdrech deg' i'w chyhoeddi a'i byw.

Pentref glofaol Y Betws, Rhydaman, ardal a chymuned glo carreg Sir Gâr oedd ei gynefin, ei dad yn löwr a'r teulu'n aelodau yn y Capel Newydd; H. R. Davies a T.J. Davies yn eu tro yn weinidogion yno, y Gymraeg a'r Capel yn parhau yn rymus yn y gymdogaeth ac yn ddylanwadau ffurfiannol ar fywyd yr Haydn ifanc ac aros felly gydol ei oes. Ysgolion lleol, gan gynnwys Ysgol Ramadeg enwog Dyffryn Aman a'i haddysgodd. Colegau Caedydd a'r Coleg Diwinyddol, Aberystwyth a'i paratödd ar gyfer ei ordeinio yn Weinidog i Grist yn Salem Aberystwyth ym Medi 1956. Pumsaint, Cwmtwrch a Chwrt y Cadno (a Caio'n ddiweddarach) fu ei faes cyntaf. Gogledd Penfro, Y Tabernacl Tŷ Ddewi a Chaerfarchell a'i denodd oddi yno yn 1961. Bu Doreen, merch o Lanarth, wrth ei ochr ac yn gefn iddo am 65 mlynedd; fe'u priodwyd ar 14eg o Fawrth, 1957. Gyda dyfodiad Alison yn 1963 gwnaed y teulu'n gyfan.

Newid cyfeiriad fu yn 1965 pan benodwyd Haydn yn Swyddog Henoed Cymru a thrachefn yn Gyfarwyddwr Cyngor Henoed Cymru. Gwnaeth waith arloesol ym maes Gofal Henoed. Daethom i'w adnabod fel 'Haydn Henoed.' Fe'i gwelwyd ar raglenni teledu a radio yn hyrwyddo buddiannau pensiynwyr a phobl oedrannus, bu'n darlithio ar ei faes, yn trefnu presenoldeb y Cyngor ar faes yr Eisteddfod Genedlaethol ac yn sefydlu Pwyllgorau Lleol trwy Gymru. Golygai'r swydd deithio ledled Cymru dros 26 mlynedd. Bu'n gyfrifol am nifer o brosiectau sy'n parhau megis Victim Support, Hospital Discharge Scheme, Yr wythnos Henoed flynyddol a chyflwynodd raglen o *Ganiadaeth y Cysegr* yn gysylltiedig â hi. Bu ganddo fewnbwn i sefydlu Adran Geriatrig yn yr Ysgol Feddygol yng Nghaerdydd ynghŷd â sefydlu cangen o *The University of the Third Age* yng Nghymru. Fe'i hanrhydeddwyd â Gwisg Werdd Gorsedd y Beirdd yn 1999 am ei gyfraniad i fywyd Cymru.

Bugeiliol a gweinyddol fu ei gyfraniad i'r Cyngor Henoed ond nid ymadawodd â'r Weinidogaeth oherwydd wedi ymaelodi yn Salem, Treganna yn 1965 fe'i hetholwyd yn flaenor yno yn 1968. Bu'n fugail iddi mewn cyfnodau di-fugail rhwng 1967-69 a rhwng 1983 -1991 pryd y daeth yn Weinidog llawn amser ar ofalaeth Salem, Penuel a Holy Trinity Y Barri ac yn ddiweddarach Bethel, Rhiwbeina cyn ymddeol ar drothwy'r mileniwm newydd. Diogelodd Gymreictod yr eglwys hon ac yn ei gyfnod ef gwelwyd dechrau'r twf ym mywyd yr eglwys gyda mewnlifiad o Gymry Cymraeg i'r rhan hon o'r ddinas. Cynhaliodd 'Gynhadledd Undydd' yn 1993 i ystyried cyfleon a heriau y dyfodol gan wneud defnydd o'r doniau amrywiol ddaeth i fywyd yr eglwys. Dyma flynyddoedd sefydlu clybiau i blant ac ieuenctid, Nosweithiau Nawdd a Sêr yn Salem i godi arian at achosion megis Cymorth Cristnogol heb son am yr adfywiad yn yr Ysgol Sul a'r ymweliadau blynyddol a Threfeca, yr Astudiaethau Beiblaidd a Chymdeithas y Gadwyn. Wedi ymddeol bu'n ffyddlon i gymdeithas Hamdden, Caerdydd. Ac agorwyd drysau gwasanaeth i'r Cyfundeb pan etholwyd ef yn Ysgrifennydd Sasiwn y De yn 2004 ac yn Llywydd iddi yn 2007. Dyrchafwyd ef i gadair y Gymanfa Gyffredinol yn 2008 a chafodd ei chynrychioli yng Nhaiwan yn 2009. Adeg er farw ef oedd Llywydd Henaduriaeth Morgannwg Llundain a hynny wedi iddo fod yn ysgrifennydd am naw mlynedd gan bontio yr hen drefn a'r newydd. Rhoes gyfraniad i'r Bwrdd Pensiynau ac i Banel Arolygu y Swyddfa Ganolog. At hyn oll bu'n bregethwr cyson ym mhulpudau'r De. Cyflawnai'r swyddi hyn yn gydwybodol a manwl gyda phwyslais ar yr ymerferol.

Mi ryda ni heddiw yn coffáu ac yn diolch i Dduw am fywyd a gwasanaeth gŵr egnïol, gweithgar a ffyddlon. Roedd y dirywiad crefyddol sy'n y tir yn boendod ac yn bryder iddo a cheisiodd ddwyn ei brofiad gweinyddol helaeth i lunio strategaethau fyddai'n cyfuno eglwysi a chryfhau unedau lleol yn eglwysi hyfyw eu tystiolaeth. Nid pawb, wrth gwrs gefnogai'r weledigaeth honno! Ond daliodd ati yn fyw ei feddwl ac yn frwd ei weledigaeth i'r diwedd. Ac i aelodau ei ofalaeth bu'n fugail gofalus a phregethai'n gymeradwy gyda thinc cyfoes i'w neges. Roedd ysgytwad ei law yn groeso brwd i newydd-ddyfodiaid. Gosododd seiliau diogel i'r adfywiad ddaeth i fywyd Salem a chyfrannodd ef a Richard Hall Williams at ddiogelu hanes yr eglwys. Gŵr pendant ei farn a chadarn ei argyhoeddiadau. Profodd lawenydd yn y gwaith ac yn arbennig ym mywyd ei deulu a'i ddiléit yn ei wyrion yn sgwrs edmygus ganddo; yr e-bost yn ei gysylltu â nhw ble bynnag yr oeddent yn y byd. Gwelodd ddyddiau blin yn arbennig pan fu farw John, priod Alison a thad James a Mathew ac yn fwy diweddar colli ei frawd Eirwyn. Er yn fachgen bu gofid am ei iechyd ond goresgynnodd y cyfan gan gynnwys cancr hyd ddechrau'r flwyddyn hon. Roedd yn ŵr o allu, ymroddiad ac egni a chyfeiriwyd y rheini o'i ddyddiau cynnar yn y Betws i wasanaethu Iesu Grist, ei Efengyl a'i Eglwys.

Mae ein cydymdeimlad yn ddwys a diffuant gyda Doreen, Alison, James a Mathew, Nita ei chwaer a'r teulu oll yn eu galar.

*D. Andrew Jones*

# Bwytai Merch y Ddinas

## "La Cuina"



Lowri Haf Cooke

Sut aeth eich gwylie haf? Gobeithio y cawsoch chi amser braf. Bues i'n ffodus i gael joio traethau Pen Llŷn a Sir Benfro – a mwynhau 'steddfod a hanner yn Nhregaron. Es i hefyd i wlad Groeg, i ynys liwgar Symi, a mwynhau blasau gwahanol ym mhob un o'r llefydd hynny. O granc ffres Cwm yr Eglwys, a bynsen eisin Becws Islyn i win Retsina a chwrw Mythos, pitsa 'Crasu' a Chwrw Llŷn. Ond ges i hefyd sawru gwledd o Gatalwnia yng Nghaerdydd. Pryd i gofio am byth a dweud y gwir.







Yn dilyn degawd o groesawu gwesteion i La Cuina, Treganna, caeodd Montserrat Prat ddrysau'r bwyty ar ddechrau mis Medi. Wedi'r cyhoeddiad ar Twitter, cafwyd llu o deyrngedau, a diolchiadau am ei chyfraniad i gymuned bwytai annibynnol y ddinas. Penderfynodd Montse adael y busnes i dreulio mwy o amser â'r teulu ac i archwilio gyrfa rhan-amser ym myd addysg - a phwy all ei beio am hynny? Mae'r byd bwytai yn ddi-dostur, gyda'r oriau'n faith yn y gegin, ac yn gwynebu pawb nesa mae argyfwng costau byw y gaeaf.

Bydd effaith y creisis ar fyd lletygarwch y ddinas yn o hegar yn ôl pob golwg. Mewn sgwrs â Simon Wright yn ei gaffi-deli yn Llanarthne, fe ddywedodd e wrtha i ei fod yn disgwyl llawer mwy o fwytai Caerdydd i gau cyn diwedd y flwyddyn. Ac er mor astrus oedd clywed hynny, yn dilyn holl heriau'r pandemig, ro'n i eisioes wedi darllen am bryderon rhai perchnogion busnes lleol mewn edefyn dadlennol ar Twitter

Ym mis Awst, rhannodd Owen Morgan o gwmni Bar 44 y cynnydd yn amcanbris ei fil trydan; cyfanswm o hanner miliwn o bunnau ar gyfer eu 5 lleoliad (ym Mhenarth, Caerdydd a Bryste). *'Dyna gynnydd o 350%,'* meddai. *'Gallai hynny olygu'r diwedd bron i holl sector annibynnol y ddinas, heb ymgais ddifrifol gan y Llywodraeth i geisio rheoli pethau.'* Ymysg y nifer a ymatebodd oedd Sam a Shauna, gynt o Hangfire Southern Kitchen, y Bari (a gaeodd yn ystod y pandemig), wnaeth rannu'r gwahaniaeth yn eu biliau trydan ymhell cyn yr argyfwng ynni presennol; *'Blwyddyn 1 y bwyty - £1500 bob mis am nwy a thrydan. Blwyddyn 6 - £5000 bob mis.'* Fe glodd Owen Morgan ei neges gyda rhybudd mewn geiriau plaen; *'Dim ond y bwytai cadwyn hynny sy'n derbyn buddsoddiad gan 'venture capital' sy'n debygol o barhau i dyfu, dwi'n ofni. Gobeithio wir fy mod i'n anghywir.'*

Nawr, mae dinas fel Caerdydd wedi gweld twf aruthrol yn nifer o fwytai cadwyn, fel y gŵyr pawb a'i nain dros y ddegawd diwethaf. Dim ond nhw mwy neu lai all fforddio talu'r rhenti aruthrol yng nghanol y ddinas. Mewn ymateb wrth gwrs i hynny, gwelwyd bwytai annibynnol o safon yn agor yn y maestrefi, ac un o'r rhai cynharaf yn bendant oedd La Cuina yn Nhreganna. Dwi'n cofio'r galaru a fu a dweud y gwir pan gaewyd y bwyty blaenorol yn yr union leoliad. Patagonia oedd hwnnw – lle grêt am olwyth cig eidion a photel Malbec o'r Ariannin! Mi gofia i hynny'n glir oherwydd ar y pryd ro'n i'n sgrifennu fy llyfr cyntaf, *Canllaw Bach Caerdydd*, ac ro'n i'n torri nghalon i orfod dileu'r darn hwnnw!


Ond fe agorodd La Cuina jyst mewn pryd i ymddangos yn fy nheithlyfr cyfoes – ac am argraff a greodd, wir! Mi gofia i'r gwaith celf cyfoes ar y waliau (gan Clive Hicks-Jenkins), a'r silffoedd trawiadol o lestri serameg amryliw; deli bywiog oedd ar y llawr gwaelod os gofia i, yn wreiddiol, gyda'r bwyty i'w ganfod fyny grisiau. Ond esblygu wnaeth La Cuina, gan gynnal safonau uchel ei feistres! Roedd ymweliad bob tro fel gwibdaith dros dro, gyda'r gerddoriaeth a'r blasau yn asio â'i gilydd i greu cornel cŵl ac Ewropeaidd o'r ddinas.


Felly roedd clywed fod La Cuina yn cau yn gnoc a hanner. Fe gofia i ddêt gofiadwy yno cyn *premiere* un o ffilmiau Rhys Ifans yn Chapter! A pharti lansio ffantastig ar gyfer nofel gan awdur lleol, heb sôn am nosweithiau difyr gyda theulu a ffrindiau. A dweud y gwir wrth sgrifennu hwn, es i'r wefan i wirio ffaith; ges i syndod i weld llun ohona i a'm ffrind gorau yn cynnig llwnc destun cyn swpera! Ac ar bob un ymweliad ges i'r un saig bob tro – tybed ble ga i gwningen â blas cystal tybed nawr fod La Cuina wedi cau? Felly ganol mis Awst fe wnes i un bererindod olaf, yn syth ar ôl premiere y ffilm arswyd *Gwledd* yn Chapter - enw cwbl addas ar gyfer yr achlysur.

Llwyddais i fachu bwrdd lawr grisiau, gan wirioni ar yr holl elfennau. Y croeso cynnes gan y weinyddes Llanten No o wlad y Basg, sydd hefyd yn gynhyrchydd ffilmiau. Y gwin coch Oriol Negre, yn gyfuniad o fefus a mafon a licrish. Y salad tomatos treftadaeth megis enfys ar fy mhlât serameg – wedi'u cyfuno â betys, cnau almwn a saws oren, roedd wir yn wefr i'r synhwyrau. Yna'r ysgwydd cwningen ardderchog gyda thatws rhost a saws romesco, cyn cloi'r wledd â chlasur o bwdin cwstard, y Crema Catalana. Am noson ffantastig a ffarwél bendigedig – a phrynais sawl darn serameg yn gofroddion hyfryd hefyd. Bydd na golled mawr yng Nghaerdydd ar ôl cau bwyty 'Montse'. Diolch iddi, ei thîm a'i theulu am eu cyfraniad i ddiwylliant y ddinas. Gràcies i La Cuina am bopeth dros y blynyddoedd.

***Bwytai Cymru* gan Lowri Haf Cooke (Gwasg Gomer) £9.99**

## Rhif: 226




**Ar draws**

6. 'Hiraethu'r wyf, Oen addfwyn Duw
----- ----- yn dy glwyfau' (JW cyf) (2,5)
7. 'Mae rhywbeth bach yn ----- pawb
Nid yw yn nef ymhobman' (WG) (5)
9. Lle clywir brefu y dwys ar yn ail (5)
10. Clodfori'r un sy'n magu'r wy (7)
12. '----- ----- sy'n ein cofio
Mewn oriau cyfyng caeth' (DW) (5,6)
14. Mae'n dy dynnu di i lawr (11)
18. A yw llwyn Lea yma? (7)
19.Yn wangalon yn dechrau oedi fel nofiwr unig symol (5)
21. Aildrefnu blew pum cant yn gyflym fel hyn (5)
22. 'Aeth clychau Cantre'r -----
O'r golwg dan y dŵr' (JJW) (7)

**I lawr**

1. 'Gwêl uwchlaw gymylau -----
O! fy enaid, gwêl y tir' (WT) (5)
2. 'Roedd gan fy mam ei ----- bach
O flodau perta'r plwy' (WCW)(6)
3. Organ o'r gorffennol (3)
4. Allan o'r cyrn daw pry copyn (6)
5. Ydy y gwir un ar ei ben ei hun? (7)
8. Olew yn mynd ymlaen i'r ymyl (7)
11. Cost twrw dibendraw i'r masanachwr (7)
13. Cysur difyrrwch (7)
15. Diwrnod y blaned (6)
16. 'Y ----- uwch fy mhen
A dduodd fel y nos' (WJ) (6)
17. Anifeiliaid mudol (5)
20. Enfys yn codi o'r baw (3)

**Enillydd Croesair Rhif 224**

**Zohrah Evans, Yr Eglwys Newydd**

**Atebion Croesair Rhif 224**

**Ar Draws:** 1. Mydylu 4. Cerdyn 9. Dy weld y feinir 10. Amsugno 11. Nerthu 12. Corau 14. Golwg 18. Sonia 19. Albania 21. O'th gynefin draw 22. Caledi 23. Corddwr

**I Lawr:** 1. Madfall 2. Dawnsio unigol 3. Lelog 5. Eneinio 6. Dan yr ywen brudd 7. Nerfus 8. Dyfod 13. Atalnod 15. Ysbonc 16. Darfu 17.Magwyr 20. Bondo

Danfonwch eich atebion at Rhian Williams
erbyn 6 Hydref 2022
22 Heol Cae Rhys, Rhiwbeina, Caerdydd, CF14 6AN
Gwobr: Tocyn llyfr £10

# NEWYDDION O'R EGLWYSI

## EGLWYS DEWI SANT

**Coffi a Chlonc**

Cynhaliwyd Coffi a Chlonc ar gyfer y dysgwyr yn y neuadd fore Sadwrn, Gorffennaf 16eg, a hyfryd oedd gweld nifer o wynebau newydd. Cynhelir y nesaf ar y trydydd Sadwrn ym Medi.

**Te Prynhawn**

Roedd neuadd yr eglwys yn llawn bwrlwm brynhawn Sadwrn, Gorffennaf 16eg, ar gyfer y digwyddiad cymdeithasol cyntaf yn yr eglwys am dros ddwy flynedd a hanner. Roedd yn braf gweld cynifer yn mwynhau y lluniaeth blasus a'r sgwrsio hamddenol. Diolch yn fawr i Dilys Jones am gydlynu'r cyfan ac i bawb a baratôdd y danteithion a chynorthwyo gyda'r gwaith ymarferol.

**Cloch Dewi**

Dosbarthwyd rhifyn haf Cloch Dewi ddydd Sul, Gorffennaf 31ain. Diolch i Wyn Mears am ei waith caled yn cynhyrchu rhifyn arall diddorol a deiniadol.

**Cyngerdd**

Ar ôl y gwasanaeth aml oed fore Sul, Gorffennaf 10ed, cynhaliwyd cyngerdd gan Yasmin a Rafael. Daeth Yasmin o'r Almaen i astudio yn y Coleg Cerdd a Drama ac yn ystod ei chyfnod yno bu'n mynychu EDS. Bellach mae wedi graddio ac wedi dychwelyd i'r Almaen. Cyn ymadael cynhaliodd gyngerdd i ddiolch i EDS am y croeso, y cyfeillgarwch a'r gefnogaeth a dderbyniodd tra bu'n astudio am radd.

**Pereindod i Fanwen**

Er gwaethaf y glaw cafwyd pererindod fendithiol iawn i Fanwen, man geni Padrig Sant, ddydd Iau, Awst 18ed. Cafwyd croeso twymgalon yn Eglwys Dewi Sant, Banwen a gwerthfawrogwyd y te a baratowyd. Wedi anerchiad gan ein ficer a'r gwasanaeth o'r Hwyrol Weddi cafwyd cyfle i ymweld â chofeb Sant Padrig a cherdded rhan o Sarn Helen. I ddilyn cafwyd swper blasus yng Nglyn Nedd. Roedd pawb wedi mwynhau'r ymweliad ac yn ddiolchgar i Dyfrig, ein ficer, am drefnu'r cyfan.

**Dathlu Penblwydd Arbennig.**

Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i Margaret Hughes ar ddathliad arbennig iawn ddydd Sul, Awst 28ain. Mae Margaret yn un o aelodau ffyddlonaf EDS ac wedi bod yn hynod weithgar yno am flynyddoedd lawer.

**Cydymdeimlad**

Cydymdeimlir yn ddwys â theulu y diweddar Gwyndaf Jones yn eu galar a'u hiraeth. Arferai fynychu gwasanaeth yr Hwyrol Weddi yn EDS ac chymerai ei dro i ddarllen llith.

## EGLWYS Y CRWYS

Trist yw cofnodi y bu farw Mr. Gareth Lloyd Jones. Yn fachgen o Gaerdydd, cafodd yrfa ddisglair ym myd addysg. Bu'n aelod ffyddlon ac yn flaenor yn Y Crwys am flynyddoedd. Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf gyda'r merched, Ruth, Ceri a Rhiannon a'u teuluoedd yn eu profedigaeth.

Treuliodd rhai aelodau gyfnod yn yr ysbyty yn ystod mis Awst. Braf dweud bod Mr Arthur Evans wedi dychwelyd gartref a dymunwn wellhad llwyr iddo.

Bydd Mrs Sali Davies yn ymgartrefu yng Nghartref Tŷ Llandaf wedi iddi ddod allan o'r ysbyty. Dymunwn yn dda iddi a phenblwydd hapus iawn yn 98 oed ddechrau Medi.

Llongyfarchiadau cynnes i Iwan Wyn Gruffydd a Gemma Clarke ar eu priodas ddechrau mis Awst. Cafwyd diwrnod bendigedig. Ein dymuniadau gorau iddynt hwy ac Ela fach i'r dyfodol.

Llongyfarchiadau hwyr hefyd i Daniel Roddick ar ei briodas yntau yn Abaty Westminster ym mis Ebrill. Pob dymuniad da.

Llongyfarchiadau i Keith a Delyth Shapey ar ddod yn nain a taid unwaith yn rhagor. Dymunwn yn dda i'r Dr Jonathan Shapey a'i briod Julie ar enedigaeth Ellis Arthur, brawdd bach i Noah a Tomos.

Llongyfarchiadau i'n holl ieuenctid ar eu llwyddiant yn yr arholiadau yn ystod yr haf. Pob dymuniad da iddynt i'r dyfodol.

Edrychwn ymlaen at daith Y Gymdeithas i Slimbridge ar Fedi'r 24ain. Diolch i Cerian Angharad am y trefniadau.

Diolch i holl Eglwysi Cymraeg Caerdydd am eu croeso cynnes i'r aelodau yn ystod mis Awst. Hyfryd oedd cael cyd-addoli.

Bydd y Gweinidog yn gwasanaethu ar y Sul cyntaf o Fedi, sef y 4ydd, gyda'r oedfa foreol yn oedfa Gymun. Cawn groesawu y Parch. Robert Owen Griffiths ar yr 11eg. Bydd y Gweinidog yn ein harwain yn oedfa'r bore ar y 18fed a byddwn yn ymuno â'n cyfeillion yn Eglwys Minny St. ar gyfer yr oedfa hwyrol. Ar y Sul olaf, y 25ain, byddwn yn estyn croeso i'r Parch. Glyn Tudwal Jones i wasanaethu. Bydd yr oedfaon am 10.30 y bore a 6.00 yr hwyr ac mae croeso cynnes i bawb i gyd-addoli â ni.



*Stuart Owen-Jones, Rafael a Yasmin,*

## EBENESER

**Taith gerdded**

Ar fore Sadwrn, 2ail o Orffennaf aeth criw ohonom am dro o gwmpas Fferm y Fforest o dan arweiniad Eirian Dafydd i edrych os allen ni weld nifer o adar gwahanol. Pwy fasen meddwl bod cymaint o adar gwahanol i'w clywed o'n cwmpas er na allen ni eu gweld. Enwodd Eirian nhw wrth eu clywed yn canu. Mae'r enwau Cymraeg mor hyfryd – a dim ond cyfran fechan o'r rhai glywyd yw rhain - iar fach yr hesg, hwyaden wyllt, crëyr glas, glas y dorlan, gwylan benddu leiaf, gwennol ddu, titw gynffon hir. Diolch am fore mor ddiddorol. Mae bwriad i fynd eto ar ddechrau Tachwedd. Rhoddodd bawb gyfraniad tuag at ein helusen eleni, Tir Dewi.

**Cleifion**

Bu Vikki Tudur yn yr ysbyty yn ddiweddar am lawdriniaeth ond mae hi adre bellach. Pob bendith iddi wrth iddi wella a chryfhau.

**Cerdded**

Tachwedd 18 - 28 bydd Catrin Wooler yn cerdded ym Mhatagonia er budd Marie Curie er cof am ei diweddar ŵr Dave a'i mam Freda. Os hoffech gyfrannu gellir gwneud trwy'r ddolen hon. https://www.justgiving.com/fundraising/catrin-wooler

**Llongyfarchiadau...**

...i Arfon Jones ar dderbyn doethuriaeth er anrhydedd gan Brifysgol Bangor ar 4ydd o Orffennaf am ei waith gyda beibl.net. Sgwennodd Eirian Dafydd englyn i gofnodi'r achlysur.

Ag afiaith bu'n cyfieithu i roi'r Gair
ar goedd i'w gyd-Gymry,
a'r llên yn iaith lafar llu
yn nod er mwyn cenhadu.

...i Eirian Dafydd ac Aled Myrddin am ennill cystadleuaeth Emyn i Gymru 2022. Eirian sgwennodd y geiriau ac Aled Myrddin gyfansoddodd y dôn. Ewch i wrando arni ar YouTube drwy deipio emyn i Gymru 2022.

....i Bethan a John Ellis ar enedigaeth Tomi Prys ar Orffennaf 18fed, yn frawd bach i Mali, Macsen a Loti ac yn ŵyr i Gill a Gethin Lewis. Pob dymuniad da iddyn nhw.

**Colli aelod**

Tristwch oedd clywed am farwolaeth Gwyn Briwnant-Jones ar Orffennaf 27ain yn 89 mlwydd oed. Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â'i briod annwyl Gwyneth, a'r teulu estynedig.


*Llun: Prifysgol Bangor*

## BETHLEHEM, GWAELOD-Y-GARTH

Oedfaon / Ysgol Sul Medi (tymor ysgol) (10:30 a.m.):

4 – Oedfa gymun - Delwyn Sion
11 - Alun Wyn Bevan
18 – Parchedig R Alun Evans
25 - Sian Meinir

Gall cyfnod gwyliau gynnig amser i ddarllen llyfr sydd wedi bod yn llechu ar y silff lyfrau ers peth amser. Byddaf wrth fy modd yn chwilota mewn siopau llyfrau ail-law am drysor neu fargen, ac mae digon o lyfrau yn Y Gelli Gandryll! Yno ar un o'r silffoedd, am bris o £3, gwelais gyfrol fechan clawr papur a'i phrynu. Fe'i gosodais ar y sillf lyfrau yn y tŷ gyda'r toreth o lyfrau eraill y bûm a bwriad eu darllen pan fyddai amser yn caniatau. Pan ddaeth yn amser pacio'r cês, cafodd y gyfrol yma le ynddo.

Ar ddechrau'r gwyliau, cefais siars gan ffrind i ddarllen llyfr yr oedd o newydd ei gwblhau, sef nofel gignoeth Colson Whitehead o'r Unol Daleithiau o'r enw "*The Underground Railway*" – hanes caethwasiaeth a'r ymdrechion, trwy'r "rheilffordd gudd" yma, i ddianc o grafangau'r meistri creulon.

Wedi hynny, dyma droi at y gyfrol a ddaliodd fy llygaid yn y Gelli. Roeddwn yn gyfarwydd â'r awdur, oherwydd iddo fod yn weinidog ym Methlehem am 15 mlynedd. 'Roeddwn yn gyfarwydd hefyd â gwrthrych y gyfrol oherwydd i'r sioe gerdd "Hwn yw fy Mrawd" gael ei chyflwyno amdano pan fu'r Eisteddfod Genedlaethol yn y brifddinas yn 2018.

Ie, "Paul Robeson" oedd y teitl, a'r Parchedig T J Davies oedd yr awdur.

Ac yn y bennod gyntaf un, tra'n olrhain achau'r gwrthrych - "*rhaid cofio mai cael ei draed ar gledrau'r rheilffordd gudd a helpodd W D Robeson i ddianc*" – a thad Paul Robeson oedd y caethwas hwnnw a ddihangodd!

Bargen a thrysor o gyfrol yn wir, a gwelir nodyn yn llawysgrif yr awdur ar ei glawr mewnol yn ogystal!

## EGLWYS GATHOLIG TEILO SANT

Bob blwyddyn, cynhelir Offeren Gymraeg ar nos Iau yr Eisteddfod Genedlaethol yn ardal yr Eisteddfod. Eleni, cafodd yr Offeren ei chynnal yn Eglwys Sant Caron yng nghanol Tregaron. Diolch i Anne Uruska, aelod o gynulleidfa Eglwys Teilo Sant, am yr adroddiad yma.

Eglwys sy'n eiddo i'r Eglwys yng Nghymru yw Eglwys Sant Caron. Mae'r Cylch Catholig yn ddiolchgar iawn i'r Ficer a'r plwyfolion am eu croeso cynnes – ac am y lluniaeth hyfryd a ddarparwyd ganddynt yng Nghanolfan y Barcud wedi'r Offeren.

Doedd Esgob Edwin Regan ddim yn gallu dathlu'r Offeren gan iddo orfod hunan-ynysu oherwydd cofid. Ond yn ffodus, daeth Tad Matthew Roche-Saunders i'r adwy. Brodor o Aberhonddu yw Tad Matt, sydd ers blwyddyn yn offeiriad plwyf Aberystwyth lle mae'n cynnal Offeren Gymraeg yn fisol. Dathlodd yntau Offeren yr Eisteddfod a darllenwyd pregeth Esgob Edwin gan Ron Keating, Cydlynydd y Cylch Catholig.

Canwyd Offeren "Mair y Tapyr" o waith y diweddar Abad Alan Rees – a fu am gyfnod yn athro ceddoriaeth Ysgol Hafod y Waun (Heathfield House), Caerdydd, cyn ymuno ag Urdd y Benedictiaid yn Henffordd. Yr organydd oedd Pete Leggett.

Darllenwyd y llith gan Drizzle Thomas, 12 oed, sydd â'i theulu yn hanu o India. Mae Drizzle yn byw yn Aberystwyth ac yn ddisgybl yn Ysgol Penglais. Enillodd hi'r ail wobr yn y gystadleuaeth "Llefaru Bl. 7-9" yn Eisteddfod yr Urdd eleni.

***Offeren Gymraeg Eglwys Teilo Sant***, Yr Eglwys Newydd: Medi 25ain am 4.30pm. Croeso cynnes i bawb. Caiff yr Offeren ei ffrydio'n fyw ar: St Teilo's with Our Lady of Lourdes (stteilos-olol.co.uk)

## YR EGLWYS EFENGYLAIDD

**Pregethwyr Gwadd**

Yn ystod ambell Sul yn yr haf roedd yn braf croesawu pregethwr gwadd atom. Ddechrau Awst daeth Carwyn Graves sy'n enedigol o Gaerdydd. Carwyn, sy'n awdur llyfrau ar afalau Cymru a bwydydd Cymreig, yw Swyddog Cenhadaeth a Chysylltiadau Digidol Undeb Bedyddwyr Cymru. Cyn hynny bu'n gweithio gyda Cyfieithwyr Beibl Wycliffe.

Dewisodd Carwyn bregethu ar yr eglwys yn y ddwy oedfa gan sôn am y berthynas agos a'r cariad ddylai fod rhyngom fel aelodau o eglwys Iesu Grist. Pwysleisiodd hefyd y pwysigrwydd o ddefnyddio'r doniau sy gennym o fewn yr eglwys. Bu'n Sul da a bendithiol.

Ddiwedd y mis braf oedd croesawu Gruff Rhys Davies o Eglwys Efengylaidd Talsarnau a John Perry o Eglwys Efengylaidd Rhydaman.

**Gwersyll**

Cafodd sawl un o bobl ifanc yr eglwys wythnos hapus yng ngwersylloedd Cymraeg Mudiad Efengylaidd Cymru, y gwersyll iau ym Mhentrenant a'r hŷn ym Mryn y Groes. Bu rhai o'r eglwys hefyd yn gwasanaethu fel arweinwyr, swyddogion a chogyddion. Emyr hefyd oedd y caplan yn y gwersyll hŷn. Mae'r gwersylloedd yma wedi bod yn fendith i sawl cenhedlaeth o bobl ifanc wrth iddynt fwynhau bod mewn awyrgylch Cristnogol a chael eu dysgu o'r Beibl.

**Llongyfarchiadau**

Llongyfarchiadau i rai o bobl ifanc yr eglwys ar eu llwyddiant yn yr arholiadau Lefel A a TGAU eleni. Dymunwn bob bendith a hapusrwydd i Fflur Bowen wrth iddi gychwyn ar ei hastudiaethau yng ngholeg prifysgol Aberystwyth. Fe welwn d'eisiau Fflur!

**Cydymdeimlo**

Tristwch yn ddiweddar oedd clywed am farwolaeth Pauline Morgan. Bu Pauline yn mynychu'n ffyddlon ein boreau coffi i ddysgwyr a hefyd grwp Trafod Cerddi ac Emynau Cristnogol ar nos Iau. Cydymdeimlwn yn fawr â'i phriod Paul, y plant Siân a Geraint a'u teuluoedd.

**Grwp Trafod Cerddi ac Emynau Cristnogol**

Bydd y sesiynau poblogaidd yma o dan arweiniad yr Athro Wyn James yn ailddechrau 6 Hydref. Mae croeso i unrhyw un ymuno drwy gysylltu â Wyn ar JamesEW@cardiff.ac.uk

## BETHEL, RHIWBEINA

Yn ystod y misoedd aeth heibio bu raid ffarwelio â dau aelod ffyddlon o'r capel.

Yn gyntaf clywsom am farwolaeth Arfon Roberts, gynt o'r Felinheli. Bu'n aelod yn Ebeneser, Caernarfon am flynyddoedd ac yn fwy diweddar daeth yn aelod ym Methel, Rhiwbeina. Bu'n gweithio ym Manc Midland mewn nifer o lefydd yn cynnwys Caernarfon, Bethesda a Phorthmadog. Cofiwn ef am ei gymeriad hoffus a'i hiwmor a chydymdeimlwn yn ddwys â'i ferched Carys a Sylvia.

Yn ystod yr Haf cawsom y newyddion trist am farwolaeth Hafwen Glynne Roberts ar 10 Gorffennaf. Ganwyd hi yn Hen Golwyn ym 1935. Cafodd ei haddysg yn ysgol Ramadeg Abergele ac yna yng Ngholeg y Normal, Bangor. Bu'n athrawes mewn sawl ysgol uwchradd ac yn hwyrach mewn nifer o ysgolion meithrin. Roedd cerddoriath yn rhan bwysig o'i bywyd a medrai ganu'r delyn, yr organ a'r piano. Yn ogystal, roedd ganddi lais hyfryd oedd yn gymorth mawr i'r gynulleidfa ym Methel ar fore Sul. Byddwn yn gweld ei heisiau a chydymdeimlwn yn ddwys â'i phriod Gwyndaf, y plant Rhys ac Eirian, a'r teulu oll.

Ar 27 Mehefin cynhaliwyd Bore Coffi yn y capel er budd Canolfan y Fron, Llandochau. Cyflwynwyd £400 i'r elusen.

Yn ystod yr Haf bu ein gweinidog, y Parch Evan Morgan yn cerdded o gwmpas Cymru ar daith noddedig 'Hadau Gobaith'. Roedd y daith olaf yn cychwyn o Salem, Treganna ar Orffennaf 13. Fe gyflawnodd 70 km a chodwyd swm sylweddol at yr achos.

17 Gorffennaf oedd dyddiad bedyddio Megan Elin Sofia, merch Bethan a Matthew Preece. Roedd y gwasanaeth yng ngofal y Parch. Evan Morgan.

Llongyfarchiadau i Angharad a Gavin ar enedigaeth Tomos John, brawd bach i Alffi Jac ac ŵyr arall i Carol a Tony Davies.

Ar ôl seibiant mis Awst mae'r gwasanaethau bore Sul am 10.15 wedi ail-gychwyn ac mae croeso cynnes i bawb.

## TABERNACL, YR AIS

Cynhelir oedfa sefydlu y Parchg Ddr Rosa Hunt yn weinidog arnom am 3pm ar brynhawn Sadwrn, 17 Medi yn y capel. Bydd croeso cynnes i'r holl aelodau a ffrindiau'r eglwys.

Un o uchafbwyntiau'r Tabernacl eleni oedd cynnal oedfa fendithiol ar ddechrau Gorffennaf wrth i Gwion Rhisiart a Huw Jones fynd drwy ddyfroedd bedydd, y naill yn 18 oed a'r llall yn 81.

Llongyfarchiadau i Reagan McVeigh oedd yn un o nifer dethol o bobl ifanc ym mlynyddoedd 12 a 13 i gymryd rhan ym Mhrosiect Ysgrifennu Gŵyl y Gelli. Cyhoeddwyd ffrwyth ei lafur yn rhaglen yr Ŵyl eleni.

Dymunwn yn dda i Hannah Sennit a'i chymar Tom wedi iddynt briodi yn Henffordd.

Ymddengys y bydd dyfodol disglair o flaen Steffan Long wedi iddo ennill gradd dosbarth cyntaf mewn cyfrifiadureg ym Mhrifysgol Abertawe.

Llongyfarchiadau hefyd i Myfi Ifan, un o aelodau tîm blwyddyn 4 Ysgol Melin Gruffydd, a ennillodd y rownd derfynol yn y Cwis Llyfrau Cenedlaethol eleni.

Yn ystod yr haf bu Mia Owen yng Nghernyw wedi iddi ennill ysgoloriaeth ddawns yn gynharach eleni.

Braf oedd deall bod Huw Roberts wedi dod yn gymrawd o Sefydliad Siartredig y Cyfrifwyr Rheoli.

Daeth Y Clwb Darllen at ei gilydd ganol mis Gorffennaf a 'The Lamplighters' gan Emma Stonex oedd eu dewis. Ar ddiwedd mis Medi 'Y Dydd Olaf', llyfr ffugwyddonol gan Owain Owain, fydd yr arlwy.

Ar ddechrau Gorffennaf cynhaliwyd Te Mefus yng ngardd Gwenllian Edwards er mwyn codi arian at Wcráin a chynhaliwyd ocsiwn fel rhan o'r digwyddiad hefyd. Codwyd y swm anrhydeddus o £1281 tuag at yr apêl.

Diolch i bawb oedd wedi cynnal oedfaon yn ystod mis Gorffennaf ac hefyd i'r Parchedig Carwyn Siddall, Llanuwchllyn am ei gyfraniad ganol mis Awst.

# Colofn Chwaraeon Hywel Owen

## Tymor Cymysglyd i Forgannwg

Wrth i mi ysgrifennu'r erthygl hon, mae Morgannwg newydd orffen gemau grŵp yn y gystadleuaeth 50 pelawd. Yn anffodus, ni fydd Morgannwg yn llwyddo eleni i adennill tlws y gystadleuaeth hon. Llwyddodd y sir i ennill y ddwy gêm gyntaf yn y gystadleuaeth ond yna colli'r bedair nesaf. Er ennill y ddwy gêm olaf, nid oedd hynny'n ddigon i fynd ymhellach yn y gystadleuaeth. Yr oedd y ddwy fuddugoliaeth olaf yn rhai arbennig. Llwyddwyd i guro Swydd Hampshire a oedd ar frig y grŵp yn hawdd yng Nghastell-nedd gyda'r batiwr ifainc Tom Bevan o Gaerdydd yn sgorio 134 - batiad rhyfeddol.

Rhaid nodi mai braf iawn oedd dychwelyd ganol Awst i Gastell-nedd – y tro cyntaf i Forgannwg chwarae yno ers 27 mlynedd a gwelwyd torfeydd teilwng iawn ar gyfer y ddwy gêm. Mae'n holl bwysig fod Morgannwg yn parhau i chwarae ambell i gêm tu hwnt i Erddi Soffia gan fod y sir yn cynrychioli Cymru gyfan. Yn y gêm olaf yn y grŵp, wrth guro Swydd Gaerwrangon, sgoriodd y batiwr Sam Northeast 177 heb fod allan – y sgôr uchaf yn hanes y sir gan fatiwr Morgannwg mewn gemau undydd. Mae hyn yn coroni tymor arbennig i'r batiwr. Yn y gêm honno hefyd sgoriodd Billy Root 113 heb fod allan.

Siomedig fu ymgyrch Morgannwg yn y gystadleuaeth 20 pelawd gan ennill dim ond pum gêm allan o 14. Yn ddi-os, uchafbwynt yr ymgyrch oedd curo Middlesex yn hawdd o 8 wiced yng Ngerddi Soffia gyda Sam Northeast unwaith eto yn serennu gyda batiad gwych o 89 a David Lloyd yn sgorio 67. Cafwyd ambell i gyfraniad pwysig yn y gystadleuaeth gan y bowliwr Prem Sisodiya a'r batiwr Kiran Carlson, y ddau o Gaerdydd ond anghyson fu'r perfformiadau gan y mwyafrif o'r tîm yn ystod yr ymgyrch.

Bu'r perfformiadau yn y Bencampwriaeth pedwar niwrnod yn fwy calonogol. Llwyddwyd i ennill pum gêm allan o ddeg. Yn ddi-os, yr uchafbwynt oedd y fuddugoliaeth rhyfeddol yn erbyn Swydd Gaerlŷr ganol Gorffennaf. Yn ystod y gêm honno, llwyddodd Sam Northeast i sgorio 410 heb fod allan – y sgôr uchaf erioed gan fatiwr yn hanes y sir. Dim ond wyth batiwr arall sydd wedi sgorio mwy na 400 erioed mewn batiad ledled y byd a dim ond pedwar yn Lloegr! Hefyd, sgoriodd Morgannwg 795 am 5 – cyfanswm uchaf yn hanes y sir. Y bartneriaeth o 461 rhwng Northeast a Chris Cooke, a sgoriodd 191 heb fod allan, am y chweched wiced oedd yr uchaf yn hanes y sir. Yr oedd rhai yn meddwl y dylai Morgannwg fod wedi parhau i fatio er mwyn galluogi Northeast i guro sgôr Brian Lara o 501 - yr uchaf erioed. Penderfynodd Morgannwg gau'r batiad er mwyn ceisio ennill y gêm a dyna ddigwyddodd. Gêm rhyfeddol ac hanesyddol!

Gyda pedair gêm ar ôl ym mis Medi, mae gobaith gwirioneddol am ddyrchafiad i'r Adran Gyntaf.

Yn ystod yr wythnosau diwethaf, mae'n siŵr fod nifer o ddarllenwyr *Y Dinesydd* wedi gwylio rhai o'r gemau yn y gystadleuaeth can pelen/*Hundred.* Difrifol yw'r unig air i ddisgrifio perfformiadau y Tân Cymreig yn y gystadleuaeth dynion a merched. Er nad yw nifer o ddilynwyr selog criced yn hoff iawn o'r gystadleuaeth, rhaid croesawu'r ffaith fod torfeydd parchus yn mynychu'r gemau yng Ngerddi Soffia gan gynnwys nifer o deuluoedd. Hefyd, rhaid canmol y Tân Cymreig am rhoddi lle blaenllaw i'r Gymraeg fel y llynedd ar y crysau ac yn y cyhoeddiadau yn ystod gemau. Ond mae'n rhaid i'r perfformiadau ar y cae wella y flwyddyn nesa.



## Cyhoeddi rhestr testunau Eisteddfod Gadeiriol Caerdydd

Os fuoch chi draw i stondin Cymdeithas Eisteddfodau Cymru yn Nhregaron fis Awst, fe fyddwch chi'n gwybod mai ein beirniaid ar gyfer Eisteddfod 2023 yw Ifor ap Glyn ac Emyr Lewis (Barddoniaeth), Llio Maddocks a Glenys Roberts (Rhyddiaith), John Rea (Cerddoriaeth) a Huw Talfryn Walter (Ffotograffiaeth).

Gobeithio hefyd eich bod wedi cael golwg ar y rhestr testunau. Mae nhw hefyd bellach ar ein gwefan www.eisteddfodcaerdydd.cymru. Dyddiad cau cystadlu yw dydd Gwener 2 Rhagfyr 2022. Byddwn ni hefyd yn cyhoeddi rhestr cystadlaethau llwyfan eisteddfod 2023 cyn hir.

Gallwn hefyd gadarnhau mai ddydd Sadwrn 21 Ionawr 2023 yn Ysgol Plasmawr fyddwn ni'n cynnal yr eisteddfod unwaith eto. Ry'n ni'n ddiolchgar iawn i'r ysgol am ei chefnogaeth.

Ry'n ni'n edrych ymlaen at eich croesawu chi yn ôl!

# Y DIGWYDDIADUR

## Medi

**Mercher, 7 Medi**
Merched y Wawr, Cangen Bro Radur. Noson agoriadol y tymor yng nghwmni'r cerddor Mei Gwynedd a'i gitâr acwstig, yn Ysgoldy Eglwys Crist, Heol Isaf, Radur, am 7.30pm. Croeso cynnes i bawb. Am fanylion pellach, cysylltwch â'r Ysgrifennydd, Gwen Emyr (gwen.emyr@gmail.com; 029 -2084-8545).

**Mawrth, 13 Medi**
Merched y Wawr, Cangen Caerdydd. Sgwrs gan Gwyn Loader ar y testun 'Gohebu ar ryfel trwy gyfrwng y Gymraeg: pam trafferthu?', yn Eglwys Fethodistaidd Cyncoed (ar y gornel rhwng Westminster Crescent a Heol Cyncoed) am 7.00pm. Croeso cynnes i aelodau hen a newydd. Am ragor o fanylion, cysylltwch ag Eluned Press (eluned@press0.plus.com; 07761-358755).

**Sadwrn, 17 Medi**
Menter Caerdydd. Taith fws i Ŵyl Fwyd y Fenni. Manylion pellach: leanne@mentercaerdydd.cymru

**Sadwrn, 17 Medi**
Gwasanaeth sefydlu'r Parchg Ddr Rosa Hunt yn weinidog Eglwys y Tabernacl, Yr Ais, Caerdydd, am 3.00pm. Croeso cynnes i bawb.

**Sul, 18 Medi**
Menter Caerdydd. Taith gerdded hamddenol o gwmpas Penarth, yn dechrau am 10.30am. Am fanylion pellach, cysylltwch â Rachel Matthews (rachel@mentercaerdydd.cymru).

**Llun, 19 Medi**
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbeina. Bydd Aled Powys Williams yn trafod ei yrfa ym myd y canu a'r tu hwnt, yng nghapel Bethel, Rhiwbina, am 7.30pm. Manylion pellach gan yr Ysgrifennydd, Dilwyn Jones (dilwynjones51@hotmail.com; 029-2062-0653). Croeso cynnes i aelodau hen a newydd.

**Iau, 22 Medi**
Menter Caerdydd. Sgwrs gan Dr Eirini Sanoudaki o Brifysgol Bangor ar y testun 'Byw gydag Ieithoedd: Taith ac Ymchwil'. Am 7.30pm trwy gyfrwng Zoom. Am ddim. I gofrestru, cysylltwch â Rachel Matthews (rachel@mentercaerdydd.cymru).

**Gwener, 23 Medi**
Noson elusennol yn y 'Terra Nova' ger y llyn ym Mharc y Rhath rhwng 6.30pm a 10.00pm. Tocynnau: £20 yn cynnwys dewis o 10 Pizza a chyfraniad at gymdeithas elusennol Haemochromatosis (y clefyd Celtaidd: gorlwyth o haearn yn y corff). Darperir adloniant. Bydd tocynnau ar werth yn y 'Terra Nova' neu gan Gwilym Wyn Roberts (07968-463737).

**Sadwrn, 24 Medi**
Datganiad Organ gan Gregg Abrahams yn y Tabernacl ar yr Ais am 12.30pm.

**Gwener, 30 Medi**
Bore coffi ar gyfer Nyrsys Macmillan o 10.00am tan ganol dydd a choffi prynhawn o 1.00pm tan 3.00pm, yn 184 Heol Llanedeyrn, Pen-y-lan, CF23 9EA. Manylion pellach gan Gwilym Wyn Roberts (07968-463737). Bydd cyfraniad teisennol yn dderbyniol ond ddim yn angenrheidiol. Croeso cynnes i bawb.

**Gwener, 30 Medi**
Cylch Llyfryddol Caerdydd. Sgwrs gan Dr Llŷr Gwyn Lewis, enillydd Cadair Eisteddfod Genedlaethol Ceredigion 2022, ar y testun 'Ddigwyddith y peth hwn byth eto: cerddi'r Traeth', yn Ystafell 0.31, Adeilad John Percival, Safle Rhodfa Colum, Prifysgol Caerdydd, CF10 3EU, am 7.00pm. Croeso cynnes i bawb.

**Gwener, 30 Medi**
Cyngerdd gyda Rhys Meirion yn Eglwys y Tabernacl, yr Ais am 7.30pm. Tocynnau £10 i oedolion, £5 i blant.

## Hydref

**Llun, 3 Hydref**
Cylch Cinio Cymraeg Caerdydd. Cyfarfod cyntaf y tymor yn y 'New House'. Siaradwr gwadd: Vaughan Roderick. Manylion pellach: cylch.cinio@gmail.com

**Mercher, 5 Hydref**
Merched y Wawr, Cangen Bro Radur. Sgwrs gan Rhian Evans am lyfrau llafar, yn Ysgoldy Eglwys Crist, Heol Isaf, Radur, am 7.30pm. Croeso cynnes i bawb. Am fanylion pellach, cysylltwch â'r Ysgrifennydd, Gwen Emyr (gwen.emyr@gmail.com; 029-2084 -8545).

**Iau, 6 Hydref**
Dechrau tymor newydd o sesiynau trafod cerddi ac emynau Cristnogol dan arweiniad yr Athro E. Wyn James am 8.00pm bob nos Iau trwy gyfrwng Zoom. Croeso cynnes i bawb. I dderbyn manylion pellach, cysylltwch â'r Athro E. Wyn James (JamesEW@caerdydd.ac.uk; 029-2062-8754).

**Iau, 6 Hydref**
Cylch Cinio Merched Caerdydd. Yng Nghlwb Golff Radur am 7.30pm. Siaradwraig wadd: Siân Doyle (Pennaeth S4C). Am fanylion pellach, cysylltwch â'r Cadeirydd, Elin Tudur (etudur@aol.com; 07768-095678).

**Mawrth, 11 Hydref**
Merched y Wawr, Cangen Caerdydd. Sgwrs gan Dr Liza Thomas-Emrus ar y testun 'Arwain Ysbyty Maes Covid-19 prysuraf y DU: Storïau o Ysbyty Seren', yn Eglwys Fethodistaidd Cyncoed (ar y gornel rhwng Westminster Crescent a Heol Cyncoed) am 7.00pm. Croeso cynnes i aelodau hen a newydd. Am ragor o fanylion, cysylltwch ag Eluned Press (eluned@press0.plus.com; 07761-358755).

**Gwener, 14 Hydref**
Cymrodorion Caerdydd. Cynhelir cyfarfod agoriadol y tymor yn Salem, Treganna, am 7.30pm. Wedi arwisgo'r Llywydd newydd, Rheinallt Thomas, ceir cyflwyniad ganddo ar y thema 'PWY ydw i? Crefyddau ein cymdogion.' Bydd modd ymuno hefyd trwy Zoom. Pris mynediad yw £3.00 (ond yn rhad i aelodau). Am fanylion ynghylch aelodaeth, mynediad â dolen Zoom, cysylltwch â'r Ysgrifennydd, Gwynn Matthews (m.g.derwendeg@gmail.com; 029-2089-1802). Croeso cynnes i bawb.

**Mercher,15 Hydref**
Cronfa Glyndŵr Ysgolion Cymraeg. Cinio ac Anerchiad gan yr Athro Mererid Hopwood yng Nghlwb Golff Radur. Ymgynnull am 6.30 a chinio am 7.00. Tocynnau £35. Cysyllter â Heledd Jones ffôn; 01267253372 heledd.jones.347@hotmail.com

**Anfonwch fanylion ar gyfer y Digwyddiadur at yr Athro E. Wyn James. Manylion ar dud. 2**

# Pobol y Rhigwm

Gobeithio bod darllenwyr y *Dinesydd* wedi mwynhau'r haf hirfelyn tesog y cawsom ni eleni – mae'n sicr wedi ysgogi casgliad iach o limrigau'r tro hwn! Efallai bod wythnos yn Nhregaron yn lapio'r profiad o gael Steddfod go iawn eto (ac am Steddfod, hefyd!) wedi cymell y rhigymwyr i ymhél â chystadleuaeth farddol. Efallai mai anhreuliedig haul Gorffennaf gwych ynddo'i hun wnaeth danio'r awen! Beth bynnag, mae'n dda gen i ddweud y daeth dwsin o limrigau i law, sy wedi bodloni'r beirniad – maen nhw'n rhychwantu'r digri a'r sobor, y crafog a'r ensyniol. Mae gan bob ymgeisydd afel o lew ar anghenion y mesur ac – yn anad dim, ac eithrio ambell fân-lithriad – mae mydryddiaeth gadarn i'r limrigau, felly wna i ddim traethu am gyfri sillafau'r tro hwn! Doedd 'na'r un ymgais wirioneddol wan ac mae i bob limrig ei rinweddau felly mae'n werth eu cyhoeddi i gyd er mwyn i ddarllenwyr y *Dinesydd* gael eu mwynhau. Fe wna i fanylu ynghylch y tri sy wedi cyrraedd y brig ond dyma'r naw arall, heb fod mewn unrhyw drefn heblaw'r drefn iddyn nhw ymddangos ar gopi'r beirniad:

Ar ôl bod ar wyliau eleni
Caf ddigon o awydd ac egni
I arwain y wlad
O'i thrafferth a'i stad
A mawr fydd ei diolch hi imi!

***Addo'r byd***

Ar ôl bod ar wyliau eleni
Mae achos 'da Benni i boeni!
Mae 'i wraig yn un swanc
Heb ball ar ei gwanc
Ond dim lot yn ei banc - na'i phen 'i!

***Barn-wr***

Ar ôl bod ar wyliau eleni
Aeth Loti i brynu bicini.
"Ond rhy hwyr, mae'n siwr."
Mynte Berti, ei gŵr.
"Na, na. Blwyddyn nesa amdani!"

***Mewn Gobaith***

Ar ôl bod ar wyliau eleni
"Byth 'to!" medde Ianto wrth Jeni.
"Holl helbul y paco
A ti a dy stranco.
Wy'n lico bod gatre ta pu'n i!"

***Doethwr***

Ar ôl bod ar wyliau eleni
Cawn edrych ar luniau a ffoli
Ar draethau mor braf
Ym Môn ganol haf
A theulu diofid yn gwmni!

***Cofio'r hwyl***

Mae Dewi a Jen am briodi –
A hynny'n reit handi - heb oedi.
Fe fuon nhw'n ffôl –
A does dim troi nôl
Ar ôl bod ar wyliau eleni.

***Wel! Wel!***

Ar ôl bod ar wyliau eleni
Byddwn nôl wrth y llyw'n baldorddi
Dros UK bob dydd
A grym marchnad rydd
Heb chwyddiant a phawb yn cyflawni!

***Yr un hen griw***

Ar ôl bod ar wyliau eleni
Mae Martha 'di newid, myn diain i!
Mor hyfryd yw cofio
Ei gweld hi yn joio
A nofio heb ddim byd amdani!

***Y Ficer***

Ar ôl bod ar wyliau eleni
Gwnaeth rhywbeth i fi sylweddoli:
Ar ôl dod sha thre
A phaned o de,
Ie, hwn yw y lle sy'n rhagori!

***Bodlon***

Dyma'r tri limrig gorau, ym marn y beirniad (ac yn wir, yn ei hanfod chwaeth y beirniad wnaeth bennu'r goreuon y tro hwn, mewn cystadleuaeth o safon):

Dwi'n falch o fod 'nôl yn Y Fenni
Ar ôl bod ar wyliau eleni
Roedd y teithio yn braf
Ond ar hirddydd o haf
Fe losgodd y croen ar fy mhen i!

***Yr Arfordir Crasboeth***

Rwy'n gosod yr *Arfordir Crasboeth* yn drydydd, yn bennaf gan fod y beirniad yn gallu cydymdeimlo â goblygiadau bod yn yr haul am yn rhy hir, heb het, i'r rheini ohonom sy'n teneuo ar ein corun! Mae'r limrig wedi'i weithio'n dda ond tip (hynod dechnegol!) i'r *Arfordir Crasboeth*, gosoder cysylltnod mewn ymadroddion fel 'mhen-i' er mwyn iddo ddarllen yn naturiol ddiacen. Limrig digri wedi'i saernïo'n llwyddiannus.

Ar ôl bod ar wyliau eleni,
ymhlith yr atgofion sydd gen i
yw toriad y wawr
tra'n styc am saith awr
yng Nghaint a dim gobaith dal fferi.

***Confiture de voiture***

Limrig amserol iawn a gafwyd gan *confiture de voiture* (sy'n cyfieithu o'r Ffrangeg fel 'jam ceir'!) ac mae'n limrig gwych. Mae'r llinellau'n llifo – goferu, hyd yn oed – yn berffaith (er, *confiture de voiture*, sylwer hefyd ar y sylw uchod am roi cysylltnod mewn ymadroddion fel 'gen-i' os yw'r mynegiant yn un diacen, pwynt technegol yn hytrach nag unrhyw beth sy'n tynnu oddi ar y limrig o dan sylw), mae wedi'i fynegi'n gwbwl uniongyrchol ac mae'r hiwmor sych wedi apelio'n fawr – yn wir, fe fydden i'n dweud mai dyma'r limrig wnaeth i mi chwerthin fwyaf o blith y casgliad! Mae'r tro annisgwyl ar ôl "toriad y wawr" (sy'n brofiad hyfryd o fod ar wyliau fel arfer!) yn grafog tu hwnt ac mae'r rhwystredigaeth o fod "yn styc am saith awr yng Nghaint" wedi'i fynegi'n llwyddiannus o lafar! Dyma limrigwr siŵr iawn o'i grefft fyddai'n teilyngu'r wobr gyntaf yn ddiamheuol oni bai am un ymgeisydd arall – ail y tro hwn, ond ail tra chanmoliaethus, hefyd.

Ar ôl bod ar wyliau eleni
Mae'n rhaid i fi ddechrau cwtogi!
Gwell eiste'n yr ardd
A'i gweld hi yn hardd.
Bydd hynny, i fardd, yn bodloni!

***Y bardd breuddwydiol***

Er cymaint i fi fwynhau limrig *confiture de voiture*, ymgais y *bardd breuddwydiol* wnaeth afael yn dynnaf y tro hwn. Mae hwn, hefyd, yn limrig amserol yn yr ystyr ei fod yn cyfeirio at wasgfa ariannol ond anwyldeb y sentiment sy'n cloi'r limrig wnaeth beri i fi wenu! Pa eisiau gwario ar *package holidays* pan fo'r ardd gefn yn cynnig dihangfa i'r rheini ohonom sy'n meddu ar yr anian farddol? Campus yn wir! Fel y byddech chi'n disgwyl mewn cystadleuaeth o safon, mae'r *bardd breuddwydiol* wedi saernïo'i limrig yn ofalus, mae'n llifo'n rhwydd a'r mynegiant yn syml (dyw 'syml' ddim yn feirniadaeth, gyda llaw – i'r gwrthwyneb, dweud rhywbeth yn hygyrch o fewn cyfyngiadau mydryddol yw'r gamp, yn y pen draw). Yn ei hanfod, mae'n dweud digon ac yn ei ddweud yn dda. Ar ben y cyfan mae yma odl fewnol yn y llinell glo ac mae hynny wastad yn ychwanegu rhywbeth at limrigau, o'i wneud yn llwyddiannus. Mewn cystadleuaeth gref, felly – ac o fewn trwch blewyn – gwobrwyer *y bardd breuddwydiol*!

*Aron Pritchard*

**Enillydd Gorffennaf Awst**
**Bryan James**

## Cystadleuaeth mis Medi

**Englyn neu bennill heb fod dros bedair llinell: Hydref**

*Anfonwch eich cynigion erbyn 20 Medi, 2022 at: eirianagwilym@gmail.com*
*Gwobr: Tocyn llyfr: £10*

# Siaradwyr Cymraeg Newydd



Gwilym Dafydd

## *Atgofion o Dregaron*

### Ein diwrnod yn Eisteddfod Tregaron

Yn 2020, roedden ni wedi archebu bwthyn yn Aberaeron i ymweld â'r Eisteddfod ond yn anffodus, roedd Covid wedi cyrraedd a chanslwyd yr Eisteddfod. Ond, aethon ni i Aberaeron am wythnos eleni ac ar y dydd Llun, aethon ni i'r Maes yn Nhregaron. Cawson ni ddiwrnod hyfryd, cerddon ni o gwmpas y Maes, gan edrych ar yr holl stondinau. Cawson ni baned o goffi ym mhabell Cytûn ac hefyd, ym mhabell Mudiad Efengylaidd Cymru a siaradon ni gyda phobl yno.

I ginio, cawson ni gyri llysieuol Indiaidd gyda reis a bara naan. Ar yr un bwrdd roedd cwpl – roedd y dyn yn dod o Northampton a'r fenyw o Awstria ac roedden nhw'n byw yn Aberteifi ac yn dysgu Cymraeg.

Aethon ni i'r pafiliwn a gwelon ni gwpl o gystadleuaethau.

Ond, uchafbwynt y dydd oedd ymweld â'r babell Encore. Chwaraeodd 5 o aelodau cerddorfa symffoni BBC gerddoriaeth wedi'i chyfansoddi gan gyfansoddwyr ifanc Dyfed. Hefyd, canodd dwy gantores ifanc a chanodd un delynores ifanc. Mae Cerddorion Ifanc Dyfed yn elusen sy'n ymroi i ddatblygu sgiliau cerddorol ieuenctid siroedd Caerfyrddin, Ceredigion a Phenfro. Eisteddon ni wrth ymyl Dafydd Iwan ond roedden ni'n rhy swil i siarad ag e!

*Ian a Jan Cox, Yr Eglwys Newydd*

### Coffi a Chlonc

Ers dydd Iau, 23 Mehefin, 1-2 o'r gloch, rydym wedi cynnal sawl clonc yn yr awyr agored draw yn y Castell. Roedd mwy nag arfer ar bnawn Iau, 14 Gorffennaf, fel gwelwch yn y llun. A diolch Kate am y llun – dyna pam dyw hi ddim yn y llun fel y saith arall!

Yna ar foreau Llun ers ail hanner mis Mehefin, mae Clonc Yr Awr Hapus wedi cyfarfod un ai yn y parc ger llyfrgell Yr Eglwys Newydd neu ar Zoom neu yn yr Hollybush! Os edrychwch ar y llun yna mae'n amlwg pa un o'r tri lleoliad oedd y man cyfarfod ar fore Llun, 8 Awst, yn fuan wedi i Eisteddfod Tregaron ddirwyn i ben. Daeth David Thomas, Talog, Dysgwr y Flwyddyn





2021 draw i ddweud 'Shwmae' ac atebodd nifer o gwestiynau cyn amser ffarwelio.

### Cyfansoddiadau a Beirniadaethau

Tybed faint ohonoch chi sy'n dysgu Cymraeg sydd wedi clywed neu ddarllen neu brynu copi o'r llyfr poblogaidd hwn? Mae'n costio £10. Mae 332 tudalen ynddo y tro hwn. Argraffwyd gan Wasg Gomer, Llandysul. Roedd yn gwerthu'n dda yn Eisteddfod Tregaron ar Y Maes yn hwyr prynhawn Gwener, wedi cyhoeddi enw Bardd y Gadair yn y pafiliwn.

Os edrychwch yn Adran Dysgu'r Gymraeg yna gwelir enw Beverley Morgaine Parc neu Cathy Chicago neu Radur i rai ohonom ni! Roedd Cathy nôl yn 2020 wedi disgrifio ei swydd gyntaf yng nghategori lefel Canolradd.

Llongyfarchiadau hefyd i Nabil Hansworth, Caerdydd, yng nghategori lefel Mynediad – roedd ganddo sgwrs rhwng dau berson mewn ciw.

Llongyfarchiadau mawr i olynydd David Thomas yng nghystadleuaeth Dysgwr y Flwyddyn 2022 sef Joe Patrick Healy. Daw Joe o Wimbledon yn ne Llundain ac wedi byw yng Nghaerdydd ers degawd. Dim ond ers 2018 mae Joe yn dysgu Cymraeg. Am gamp anhygoel! Efallai eich bod eisoes wedi ei weld yn siarad am ei brofiadau ar y teledu ar S4C neu wrando arno ar Radio Cymru.